# Cynulliad Cenedlaethol Cymru

## Rhaglen Ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru 2011 - 2016

Gorffennaf 2011

Mae rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru 2011 - 2016 yn cynnwys manylion y 21 o Filiau a gaiff eu cyflwyno yn ystod tymor presennol y Cynulliad o bum mlynedd. Mae'r papur hwn yn cynnwys trosolwg o nodau ac amcanion pob Bil ac yn nodi (lle bo hynny'n bosibl) pryd y caiff ei gyflwyno.

Gwasanaeth Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

**Mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn darparu ymchwil a gwybodaeth arbenigol a ddiduedd er mwyn cefnogi Aelodau a phwyllgorau'r Cynulliad i gyflawni swyddogaethau craffu, deddfwriaethol a chynrychioliadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.**

Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd. Croesawn sylwadau ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallwch eu hanfon i'r cyfeiriad post neu e-bost isod.

Gellir cael gafael ar fersiwn electronig o'r papur ar safle'r Cynulliad Cenedlaethol yn: www.cynulliadcymru.org/bus-assembly-publications-research.htm

Mae copïau printiedig hefyd ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau:
Y Gwasanaeth Ymchwil
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

E-bost: Research.Service@wales.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2011
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Rhif ymholiad:** 11/1449

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

# Rhaglen Ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru 2011 - 2016

Gorffennaf 2011

Owain Roberts ac Alys Thomas

Rhif dogfen: 11/048

Gwasanaeth Ymchwil

# Cynnwys


**1. Cyflwyniad ..... 1**

*1.1 Rhaglen ddeddfwriaethol dros bum mlynedd ..... 1*
*1.2 Biliau Cynulliad Drafft a Phapurau Gwyn ..... 2*

**2. Rhaglen Ddeddfwriaethol 2011 – 2012 ..... 4**

*2.1 Bil Llywodraeth Leol (Is-ddeddfau) (Cymru) ..... 4*
*2.2 Bil Llywodraeth Leol (Mesurau Cydlafurio) (Cymru) ..... 5*
*2.3 Bil Swyddfa Archwilio Cymru ..... 6*
*2.4 Bil Ysgolion a Safonau (Cymru) ..... 8*
*2.5 Bil Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd (Arddangos Gwybodaeth) (Cymru) ..... 9*

**3. Amgylchedd, Cynllunio a Chynaladwyedd ..... 11**

3.1 Bil Priffyrdd a Thrafnidiaeth (Cymru) ..... 11
3.2 Bil Cynllunio ..... 12
3.3 Bil Treftadaeth ..... 13
3.4 Bil Datblygu Cynaliadwy ..... 14
3.5 Bil Amgylchedd ..... 15

**4. Iechyd a Gwasanaethau Iechyd ..... 18**

4.1 Bil Rhoi Organau (Cymru) ..... 18
4.2 Bil Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) ..... 21
4.3 Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) ..... 23

**5. Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ..... 25**

5.1 Bil Strwythurau, Llywodraethu ac Anghenion Addysgol Arbennig (Cymru) ..... 25
5. 2 Bil Plant a Phobl Ifanc (Cymru) ..... 26

**6. Cymunedau, Tai a Pholisi Cymdeithasol ..... 28**

6.1 Bil Atal Troseddau Ieuenctid (Cymru) ..... 28
6.2 Bil Tai (Cymru) ..... 29
6.3 Bil Cam-drin Domestig (Cymru) ..... 29
6.4 Bil Tyllu Cosmetig (Oedran Cydsynio) (Cymru) ..... 31
6.5 Bil Compactau Statudol y Trydydd Sector (Cymru) ..... 32
6.6 Bil Democratiaeth ac Etholiadau (Cymru) ..... 33

**A. Amserlen ar gyfer cyflwyno Biliau Cynulliad yn ystod y Pedwerydd Cynulliad ..... 35**

# Rhaglen Ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru 2011 - 2016

## 1. Cyflwyniad

Ar 12 Gorffennaf 2011, gwnaeth y Prif Weinidog, y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AC, ddatganiad yn y Cyfarfod Llawn ar raglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer y pum mlynedd nesaf hyd at etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol ym mis Mai 2016.

Dyma raglen ddeddfwriaethol gyntaf Llywodraeth Cymru o dan Ran 4 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*[1] ('Deddf 2006'), sy'n galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i basio deddfau ar unrhyw un o'r 20 o bynciau a nodir yn Atodlen 7 i'r Ddeddf.[2] Rhoddwyd y pwerau hyn i'r Cynulliad ar ôl i bleidlais gadarnhaol gael ei bwrw yn y refferendwm a gynhaliwyd ar 3 Mawrth 2011.

Mae'r rhaglen ddeddfwriaethol yn cynnwys manylion y 21 o Filiau y mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu eu cyflwyno yn ystod tymor presennol y Cynulliad o bum mlynedd. Mae'r papur hwn yn rhoi trosolwg o nodau ac amcanion pob Bil ac yn nodi (lle bo hynny'n bosibl) pryd y caiff ei gyflwyno.

### *1.1 Rhaglen ddeddfwriaethol dros bum mlynedd*

Rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru yw'r cyntaf i gynnwys tymor Cynulliad llawn. Gwnaed y datganiadau deddfwriaethol blaenorol gan y Llywodraeth yn flynyddol, fel arfer yn ystod wythnos diwethaf tymor yr haf ym mis Gorffennaf.

Cefnogwyd y newid i gael rhaglen ddeddfwriaethol dros bum mlynedd gan Lywodraeth flaenorol Cymru tua diwedd y Trydydd Cynulliad. Ar 15 Mawrth 2011, dywedodd John Griffiths AC, y Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Rhaglen Ddeddfwriaethol ar y pryd, fod Llywodraeth Cymru'n ffafrio newid i gael rhaglen ddeddfwriaethol dreigl. Dywedodd:

> … we support a move away from the Government's current annual legislative programme towards a four-year programme. The current cycle is based on the Westminster model, where items that have not completed their passage fall at the end of each annual session. That is not the case here, as items can roll from one year to the next within an Assembly. Moving toward a four-year cycle will better reflect the procedures of this Assembly, and better align with the programme of Government.
>
> We recognise the continued need for an annual statement on the Government's legislative programme to be made by the First Minister, outlining those items the Government will introduce over the following year. However, the principle of a four-year cycle will facilitate better forward planning and better stakeholder engagement,

[1] Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (c.32) **(Saesneg yn unig)**
[2] Mae rhestr lawn o bwerau deddfu'r Cynulliad Cenedlaethol i'w chael yn y Papur Ymchwil: Pwerau Deddfu Cynulliad

> through plentiful notice of intentions and consultation at the development stage, as well as the publication of draft Bills, rather than the shoehorning of items into annual programmes.[3]

Ar ôl etholiad y Cynulliad ym mis Mai 2011, awgrymodd y Prif Weinidog, mewn datganiad ar flaenoriaethau deddfu yn y Cyfarfod Llawn ar 14 Mehefin 2011, y byddai'r Llywodraeth am gael rhaglen ddeddfwriaethol dros bum mlynedd. Dywedodd:

> A five-year legislative programme should permit greater planning and flexibility in bringing items forward so that they are fully developed and consulted upon prior to introduction.[4]

Yn ogystal â gwneud datganiad cychwynnol ar raglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru dros bum mlynedd, cadarnhaodd y Prif Weinidog hefyd y bydd datganiadau ar lafar yn cael eu gwneud bob blwyddyn cyn pob tymor Cynulliad i roi manylion y Biliau y bydd Llywodraeth Cymru'n eu cyflwyno yn ystod y Cynulliad hwnnw. Dywedodd:

> There will continue to be an annual oral statement to the Assembly on the Government's legislative programme, with the initial statement setting out the headline items in the five-year Government programme and the detail of those Government Bills to be brought forward over the next 12 months. Subsequent annual statements will announce which Government Bills will be introduced during the course of that year.[5]

Er bod y rhaglen ddeddfwriaethol bresennol yn cynnwys 21 o Filiau, nododd y Prif Weinidog hefyd fod lle i gael rhagor o ddeddfwriaeth ac y bydd amser ar gael yn ystod y pum mlynedd nesaf i gael deddfwriaeth gan bleidiau eraill".[6]

## *1.2 Biliau Cynulliad Drafft a Phapurau Gwyn*

Nododd y rhaglen ddeddfwriaethol y bydd nifer sylweddol o Filiau'n cael eu cyflwyno ar ffurf ddrafft neu fel Papurau Gwyn cyn eu cyflwyno'n ffurfiol.

Nododd Llywodraeth flaenorol Cymru, tuag at ddiwedd y Trydydd Cynulliad, ei bod yn cefnogi gwneud defnydd helaethach o Filiau drafft a Phapurau Gwyn. Dywedodd John Griffiths AC, y Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Rhaglen Ddeddfwriaethol ar y pryd, ar 15 Mawrth 2011:

> We accept the need to ensure earlier and more innovative stakeholder engagement, including the use of Green and White Papers, to ensure that the Welsh public can influence proposals at the policy development stage, before the decision to legislate has even been taken. When that decision has been taken, whenever possible, the Welsh Assembly Government should seek to publish draft Assembly Bills for

---

[3] **Cofnod y Trafodion, 15 Mawrth 2011 [fel ar 12 Gorffennaf 2011]**
[4] **Cofnod y Trafodion, 14 Mehefin 2011 [fel ar 12 Gorffennaf 2011]**
[5] Ibid
[6] **Cofnod y Trafodion, 12 Gorffennaf 2011 [fel ar 13 Gorffennaf 2011]**

consultation. By delivering better engagement with key stakeholders as early as possible in the development of policy and legislation, it will ensure improved, informed and potentially streamlined scrutiny at Stage 1. We also recognise the need to ensure that those affected by legislation are provided with sufficient notice, and this should be achieved by applying a two-month convention to the commencement of provisions of Assembly Acts, as happens with UK Parliament Acts. There will be exceptions to this, but only if agreed by the Counsel General.[7]

Mae'r dull hwn yn adleisio'r argymhellion a ganlyn a wnaed gan Bwyllgor Materion Cyfansoddiadol y Cynulliad Cenedlaethol yn y Trydydd Cynulliad yn ei adroddiad, **Drafftio Mesurau Llywodraeth Cymru: Gwersi a ddysgwyd o'r tair blynedd gyntaf**:

> **Argymhelliad 1:** Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru, cyn cynnig cyfreithiau Cymreig newydd, gyhoeddi Papurau Gwyn sy'n nodi'r cynigion polisi y mae bwriad i'r cyfreithiau newydd eu gweithredu.
>
> **Argymhelliad 2:** Rydym yn argymell bod y Llywodraeth, cyn iddi gynnig unrhyw ddeddfwriaeth newydd yn y dyfodol, yn nodi'n glir iawn mewn Papur Gwyn pam mae angen y ddeddfwriaeth newydd a pham na ellir defnyddio dulliau eraill i roi'r polisi dan sylw ar waith.[8]

Ar 14 Mehefin 2011, nododd y Prif Weinidog y byddai Llywodraeth Cymru'n cyflwyno rhagor o gynigion deddfwriaethol ar ffurf ddrafft i alluogi i fwy o waith ymgynghori gael ei wneud. Dywedodd:

> We will work with others in the development of policy and legislation and, where appropriate, will seek to publish draft Assembly Bills for consultation.[9]

Er na wnaeth y Prif Weinidog ddatgan y byddai pob Bil yn y rhaglen ddeddfwriaethol yn cael ei gyhoeddi i ddechrau mewn Papur Gwyn neu ar ffurf ddrafft, nododd:

> There are some bills that we anticipate being fairly straightforward. We would not anticipate a White Paper being published before such Bills are published. There will be other Bills that will need to be published in draft form because they are substantial.[10]

Ychwanegodd hefyd:

> It is the Government's intention, where a Bill is quite complicated or complete, to introduce a draft Bill in order to allow Members and members of the public to express their views at that time. We will publish White Papers in relation to some Bills—for example, that will happen in October in relation to the organ donation Bill.[11]

---

[7] **Cofnod y Trafodion, 15 Mawrth 2011 [fel ar 12 Gorffennaf 2011]**
[8] **Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol, *Ymchwiliad i Ddrafftio Mesurau Llywodraeth Cymru: Gwersi a ddysgwyd o'r tair blynedd gyntaf*, Chwefror 2011 [fel ar 14 Gorffennaf 2011]**
[9] Ibid
[10] **Cofnod y Trafodion, 12 Gorffennaf 2011 [fel ar 13 Gorffennaf 2011]**
[11] **Cofnod y Trafodion, 12 Gorffennaf 2011 [fel ar 13 Gorffennaf 2011]**

Yn San Steffan, bydd Llywodraeth y DU weithiau'n cyhoeddi Biliau drafft i alluogi i waith ymgynghori a gwaith craffu cyn y broses ddeddfu gael ei wneud ar gynnig penodol. Mae gwefan Senedd y DU yn nodi:

> After consultation and pre-legislative scrutiny has taken place, the Draft Bill may be introduced formally in House of Commons or the House of Lords.
>
> Most Draft Bills are examined either by select committees in the House of Commons or in the House of Lords or by a joint committee[12] of both Houses of Parliament.[13]

I'r gwrthwyneb, mae Papur Gwyn yn nodi manylion polisi arfaethedig ar bwnc penodol y gellir eu defnyddio wedyn fel sail i Fil. Yn ôl gwefan Senedd y DU, mae Papur Gwyn yn rhoi'r cyfle i'r Llywodraeth gasglu atborth cyn iddi gyflwyno'r polisïau'n ffurfiol fel Bil.[14]

## 2. Rhaglen Ddeddfwriaethol 2011 – 2012

Cyhoeddodd y Prif Weinidog y byddai'r Biliau a ganlyn yn cael eu cyflwyno yn ystod sesiwn 2011 - 2012.[15]

### *2.1 Bil Llywodraeth Leol (Is-ddeddfau) (Cymru)*

Bydd *Bil Llywodraeth Leol (Is-ddeddfau) (Cymru)* yn diwygio gweithdrefnau is-ddeddfau ac yn gwaredu rôl Gweinidogion Cymru mewn perthynas â chadarnhau is-ddeddfau arfaethedig penodol. Y bwriad yw symleiddio'r broses a chael mwy o gyfrifoldeb a pherchnogaeth dros y deddfau lleol hyn. Bydd y Bil hefyd yn darparu ar gyfer cael gweithdrefnau gorfodi amgen drwy gael hysbysiadau cosb benodedig. Y nod yw hwyluso gorfodaeth drwy gael dull mwy uniongyrchol o weithredu.

Roedd datganiad polisi Llywodraeth Cymru ar lywodraeth leol yn 2007, **Rhannu Cyfrifoldeb**, yn cynnwys ymrwymiad i ystyried ac ymgynghori ynglŷn â newidiadau posibl i symleiddio'r broses ar gyfer gwneud is-ddeddfau llywodraeth leol yng Nghymru.[16]

Yn 2010, cynhaliodd Llywodraeth Cymru **ymgynghoriad**[17] er mwyn canfod y farn ynghylch cyflwyno proses symlach o wneud, cadarnhau a gorfodi is-ddeddfau. Dywedodd:

> Conglfaen symleiddio'r broses yw cael gwared ar y gofyniad am gadarnhad gan Weinidogion Cymru, dan rai amgylchiadau. Bydd hyn yn rhoi mwy o berchnogaeth i

---

[12] Nodwch nad y pwyllgor sy'n ystyried y Bil drafft yn Nhŷ'r Cyffredin yw'r pwyllgor a fydd o reidrwydd yn ystyried y Bil yn y cyfnod adrodd.
[13] Y Biliau Drafft gerbron y Senedd: Gwybodaeth berthnasol. *UK Parliament* [Ar-lein], [fel ar 14 Gorffennaf 2011]
[14] Geirfa: Papur Gwyn, *UK Parliament* [Ar-lein], [fel ar 14 Gorffennaf 2011]
[15] Mae 'sesiwn Cynulliad' fel arfer yn digwydd rhwng mis Medi a'r mis Gorffennaf canlynol.
[16] Llywodraeth Cymru, *Rhannu Cyfrifoldeb: Datganiad Polisi ar Lywodraeth Leol,* Mawrth 2007 [fel ar 10 Gorffennaf 2011]
[17] Llywodraeth Cymru, *Ymgynghoriad ar is-ddeddfau awdurdodau lleol yng Nghymru - Gweithdrefnau ar gyfer gwneud is-ddeddfau, eu cadarnhau a'u gorfodi,* Mehefin 2010 [fel ar 19 Gorffennaf 2011]

awdurdodau lleol dros yr holl broses, ond bydd hefyd yn golygu y bydd yn rhaid i'r asesiad o'r angen am is-ddeddf, yn ogystal â'r broses ddatblygu, fod yn fwy tryloyw a chynhwysol.[18]

Rhoddwyd cymhwysedd deddfwriaethol i'r Cynulliad Cenedlaethol yn *Neddf Llywodraeth Leol a Chynnwys y Cyhoedd Mewn Iechyd 2007*[19] ynghylch y weithdrefn ar gyfer gwneud, gweithredu a gorfodi is-ddeddfau. Fodd bynnag, gan fod Rhan 4 o Ddeddf 2006 bellach wedi dod i rym, ceir y cymhwysedd deddfwriaethol bellach ym mhwnc 12: Llywodraeth Leol yn Atodiad 7 i Ddeddf 2006.

## *2.2 Bil Llywodraeth Leol (Mesurau Cydlafurio) (Cymru)*

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn bwriadu cyflwyno *Bil Llywodraeth Leol (Mesurau Cydlafurio) (Cymru)* a fydd yn hwyluso'r broses a ddefnyddir gan awdurdodau lleol i wneud penodiadau ar y cyd, ac yn ei gwneud yn ofynnol iddynt ystyried gwneud hynny ar gyfer swyddi lle nodir eu bod yn rhai uwch, a chreu'r pwerau i Archwilydd Cyffredinol Cymru allu archwilio ac adrodd ynghylch a yw'r awdurdodau'n cydymffurfio â'r ddyletswydd hon, ac i Weinidogion Cymru ymyrryd mewn achosion o fethu â gwneud hynny.

Bu cydlafurio rhwng awdurdodau lleol ar gyfer cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus ar yr agenda ers i Gomisiwn Beecham gyflwyno ei adroddiad yn 2006. Yn fwy diweddar, nododd **adroddiad Simpson** yn glir y dylid cael newid drwy gydlafurio yn hytrach nag aildrefnu, oherwydd yr angen parhaus am drefnu gwasanaethau yn lleol. Nododd adroddiad Simpson:

> The Social Justice and Local Government Minister has consistently put forward his ambition to see greater collaboration between authorities. He has also been clear that replicating every function 22 times is unnecessary, duplicative and wasteful but that wholesale local government reorganisation is not an option either. Collaboration is a significant part of the answer to bridging this gap.[20]

Ar 23 Mehefin, dywedodd Carl Sargeant AC, y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, wrth Gynhadledd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru:[21]

> One way to make rapid progress on this[collaboration] is to appoint senior staff jointly. Again, the case for this can be overwhelming. It makes the most of scarce expertise. It saves money, and is a powerful statement of your commitment to working together for service improvement. Most importantly, it can significantly stimulate wider collaboration and service integration across geographical and organisational boundaries.

---

[18] Ibid

[19] Deddf Llywodraeth Leol a Chynnwys y Cyhoedd Mewn Iechyd 2007 (c.28) **(Saesneg yn unig)**

[20] Joe Simpson, *Lleol, Rhanbarthol, Cenedlaethol: Pa wasanaethau yw'r rhai gorau i'w darparu ble? Adroddiad i Carl Sargeant AC, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol*, Mawrth 2011 [fel ar 19 Gorffennaf 2011] **(Saesneg yn unig)**

[21] Araith gan Carl Sargeant AC, y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, i Gynhadledd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru 2001, *Wales Home* [Ar-lein], 22 Mehefin 2011 [fel ar 19 Gorffennaf 2011]

> I am tired of hearing the arguments against joint appointments. They are often no more than a defence of the status quo: a wish to have your own chief executive, director of education or whatever for its own sake. In the last year at least 5 local authorities have lost a Chief Executive and not one has made a joint appointment. That makes no sense at all. I have not been asking you to sack Chief Executives, just to make joint appointments when a vacancy occurs. Let's get real. If every local authority shared its senior officers with just one of its neighbours the saving would be £6 million each year. That is the equivalent of 500 teaching assistants. When you are writing your manifestos for next year will you be promising to keep exclusive use of a Chief Executive or will you be promising better education and better social services?
>
> Joint appointments – and mergers of whole services – are already happening in England, from large London boroughs to small rural districts. If they can do it, so can you. I am expecting much more progress in this area. If I do not see it I will seek to legislate to provide more directive options to force the pace.

Fodd bynnag, ar 7 Gorffennaf, pleidleisiodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn erbyn penodi prif weithredwr ar y cyd pan ddaeth swydd yn wag.[22]

## *2.3 Bil Swyddfa Archwilio Cymru*

Mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu cyflwyno *Bil Swyddfa Archwilio Cymru drafft* ar ôl toriad yr haf a fydd yn cryfhau trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd Swyddfa Archwilio Cymru heb gyfyngu ar annibyniaeth hanfodol yr Archwilydd Cyffredinol i archwilio pa bynnag bwnc a ddewisa. Dyma'r darpariaethau yn y Bil:

- [the Bill] will establish the Wales Audit Office (WAO) as a body corporate with a majority of non-executive members appointed by public appointments procedures, including pre-appointment hearings in the Assembly; and
- set out the relationship between the Wales Audit Office and the Auditor General Wales who will become the Accounting Officer for the WAO.

Bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru, y bydd ei delerau ac amodau'n cael eu pennu gan y Cynulliad ar sail argymhellion y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru, yn dod yn Brif Swyddog Gweithredol Swyddfa Archwilio Cymru.

Nododd maniffesto Llafur Cymru:

> Cred Llafur Cymru y dylai cyrff craffu eu hunain fod yn atebol hefyd, byddwn felly yn defnyddio ein pwerau newydd i ddeddfwriaethu i wneud Archwiliwr Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn atebol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.[23]

Mae *Mesur Llywodraethu a Diwygio Cyfansoddiadol Senedd y DU*[24]*,* a gyhoeddwyd yn Araith y Frenhines ar gyfer 2009-10, yn cynnwys

[22] BBC News, *Conwy Council votes against sharing Chief Executive*, 7 Gorffennaf 2007 [fel ar 19 Gorffennaf 2011]
[23] Plaid Lafur Cymru, *Maniffesto Llafur Cymru 2011 Sefyll Cornel Cymru,* paragraffau 23-24 [fel ar 19 Gorffennaf 2011]
[24] Y Mesur Llywodraethu a Diwygio Cyfansoddiadol (Saesneg yn unig)

darpariaethau i roi systemau llywodraethu newydd ar waith mewn perthynas â'r gyfundrefn archwilio yn y DU, yr oedd y Comisiwn Cyfrifon Cyhoeddus wedi gwneud cais amdanynt. Cafodd y cymalau hyn eu cynnwys ar gais **y Comisiwn Cyfrifon Cyhoeddus**, a gyhoeddodd ei adroddiad ar drefniadau llywodraethu corfforaethol y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ym mis Mawrth 2008[25], ar ôl cyhoeddi arolwg o wasanaethau corfforaethol y Swyddfa.

Cyflwynodd Llywodraeth y DU hefyd welliant i'r Mesur, a fyddai wedi rhoi pwerau deddfu i'r Cynulliad mewn perthynas ag Archwilydd Cyffredinol Cymru.[26] Er y derbyniwyd y gwelliant ac ychwanegwyd y cymal newydd i'r Mesur ar 4 Tachwedd 2009, dilëwyd y cymal a chymalau'r DU o'r Mesur ar ôl hynny yn ystod trafodaethau rhwng y pleidiau i gau pen y mwdwl cyn y diddymiad ar 12 Ebrill 2010. Felly, nid oedd y Ddeddf ddilynol yn rhoi cymhwysedd deddfwriaethol i'r Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas ag Archwilio. Fodd bynnag, gall y Cynulliad bellach ddeddfu gan fod ganddo'r pŵer o dan bwnc 14: Gweinyddiaeth Gyhoeddus, yn Atodlen 7 i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.*

Yn 2009, roedd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad yn bwriadu lansio archwiliad i drefniadau llywodraethu Swyddfa Archwilio Cymru. Fodd bynnag, fe'i gohiriwyd ar ôl penderfyniad y cyn Archwilydd Cyffredinol i gomisiynu ei Arolwg Rhyngwladol gan Gymheiriaid. Canfu hwn fod lle i gryfhau a gwella'r trefniadau llywodraethu, ond roedd ei ganfyddiadau'n amhendant yn y pen draw o ran sut y dylid gwneud y gwelliant hwn. Eglurodd adroddiad yn 2011 gan y pwyllgor y sefyllfa bresennol a'r achos dros newid:

> Under the Act, the office of Auditor General for Wales is a "corporation sole". The Wales Audit Office consists of the Auditor General and his/her staff but it is not a body corporate and unlike, say, a health body or an Assembly Government sponsored body does not have an appointed board. In the case of the Wales Audit Office, all of the functions are vested in the Auditor General who is charged with the governance of his office.
>
> This arrangement reflects the well-established fact that audit judgements are best made by an individual rather than a board and that that individual is best placed to decide on how an individual audit assignment should be resourced and executed. Other bodies such as the Ombudsman, Children"s Commissioner and Older People"s Commissioner are similarly established as corporations" sole for similar reasons.

[25] Comisiwn Cyfrifon Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin, *Fifteenth Report: Corporate Governance of the National Audit Office: Response to John Tiner's Review*, 4 Mawrth 2008
[26] Llywodraeth Cymru, *y Mesur Llywodraethu a Diwygio Cyfansoddiadol: Memorandwm Llywodraeth Cymru ar y pwerau fframwaith sy'n rhoi Cymhwysedd Deddfwriaethol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru*, Hydref 2009. (Saesneg yn unig)

> We fully agree that the Auditor General must be unfettered as to the exercise of his or her statutory functions so that audit judgements are and are seen to be independent and objective. However, recent events have shown that abuse of that position can have disastrous consequences. We therefore conclude that the governance arrangements for the Wales Audit Office and its accountability to the Assembly need to be strengthened.[27]

## *2.4 Bil Ysgolion a Safonau (Cymru)*

Bil Ysgolion a Safonau (Cymru), sydd i'w gyflwyno yn gynnar yn 2012, fydd y Bil addysg cyntaf i Lywodraeth Cymru ei gyflwyno yn ystod y Pedwerydd Cynulliad. Yn ôl y Prif Weinidog, diben y Bil yw rhoi camau ar waith i wella ysgolion.[28] Drwy hyn, bydd y Bil yn:

newid trefniadaeth ysgolion:

rhoi camau ar waith i wella ysgolion;

gwneud darpariaeth ar gyfer "Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg" statudol; a

symleiddio'r ffordd y caiff rhai grantiau eu talu i Awdurdodau Lleol.[29]

### Ad-drefnu ysgolion

Nododd y Prif Weinidog y byddai'r Bil yn gwneud newidiadau i'r broses o ad-drefnu ysgolion.[30] Bydd y newidiadau hyn wedi eu seilio ar ymgynghoriad y Llywodraeth, o dan y teitl **Trefniadaeth ysgolion - newidiadau posibl i'r broses**, a ddaeth i ben ar 18 Chwefror 2011. Mae trosolwg o'r ddogfen ymgynghori'n nodi'r hyn a ganlyn:

> Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried gwneud newidiadau i'r prosesau cyfreithiol sydd eu hangen er mwyn gwneud newidiadau i ysgolion. Mae Gweinidogion Cymru o'r farn y dylai unrhyw newidiadau helpu i symleiddio'r broses ac i sicrhau mai yn yr ardal leol y gwneir y rhan fwyaf o'r penderfyniadau ynghylch trefniadaeth ysgolion.[31]

### Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg

Roedd rhoi statws statudol i'r "Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg" yn ymrwymiad ym maniffesto Llafur Cymru, sy'n nodi:

> Rydym yn cydnabod bod angen ymestyn darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg fel bod cymaint o bobl â phosibl yn cael cyfle i ddysgu trwy eu dewis iaith.
>
> - Byddwn yn adeiladu ar gyflawniadau presennol Llafur fel ymestyn

---

[27] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, *Materion yn ymwneud â chyfrifo, llywodraethu a phriodoldeb yn Swyddfa Archwilio Cymru*, Mawrth 2011 [fel ar 19 Gorffennaf 2011]
[28] Cofnod y Trafodion, 12 Gorffennaf 2011 [fel ar 13 Gorffennaf 2011]
[29] Rhaglen Dddeddfwriaethol 2011-2012, *Llywodraeth Cymru* [ar-lein], [fel ar 13 Gorffennaf 2011]
[30] Cofnod y Trafodion, 12 Gorffennaf 2011 [fel ar 13 Gorffennaf 2011]
[31] Llywodraeth Cymru, *Trefniadaeth ysgolion – newidiadau posibl i'r broses: Dogfen ymgynghori*, 26 Tachwedd 2010 [fel ar 13 Gorffennaf 2011]

darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg y blynyddoedd cynnar a byddwn yn cyflwyno Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg yn ystod cyfnod nesaf y Cynulliad.

- Byddwn yn gwneud 'Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg' yn statudol.[32]

Cyhoeddwyd **Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg** Llywodraeth flaenorol Cymru ym mis Ebrill 2010. Mae nod strategol 1 y strategaeth yn nodi:

> Disgwylir i awdurdodau lleol gytuno ar dargedau ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg, a'u cyflwyno fel rhan o'u Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg i APADGOS[33] ar gyfer eu monitro'n flynyddol o 2011 (gweler Nod strategol 1).[34]

## *2.5 Bil Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd (Arddangos Gwybodaeth) (Cymru)*

Bydd y *Bil Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd (Arddangos Gwybodaeth) (Cymru)* yn cael ei gyflwyno yn 2012 ar ôl cyflwyno Bil drafft ym mis Rhagfyr 2011. Nododd y Prif Weinidog yr hyn a ganlyn am y Bil:

> It will allow the Welsh Government to make mandatory arrangements for providing consumers with easily understandable, at-a-glance information on the hygiene standards of the food business, so that they can make better informed choices about where they eat out or shop for food.[35]

Yn ogystal, nododd y Prif Weinidog y  byddai'r Bil yn datblygu **Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd** presennol yr Asiantaeth Safonau Bwyd, sy'n helpu defnyddwyr i ddewis ble i fwyta allan neu i brynu bwyd, drwy roi gwybodaeth iddynt am safonau hylendid mewn bwytai, caffis, bwytai prydau parod, gwestai a siopau bwyd. Ar hyn o bryd, mae'r cynlluniau hyn yn wirfoddol yn Lloegr, Gogledd Iwerddon a Chymru. (Mae gan yr Alban Gynllun Gwybodaeth Hylendid Bwyd gwirfoddol ar wahân).

Mae diogelwch bwyd yn bwnc sy'n achosi cryn gynnwrf yng Nghymru ar ôl yr achosion o E. Coli yn ne Cymru ym mis Medi 2005, a arweiniodd at drin 31 o bobl yn yr ysbyty ac at farwolaeth drasig Mason Jones, a oedd yn bum mlwydd oed. Wedi hynny, cafwyd **ymchwiliad cyhoeddus** i'r achos, rhwng 2006 a 2009, wedi'i gadeirio gan yr Athro Hugh Pennington. Cyhoeddwyd **adroddiad** yr ymchwiliad ar 19 Mawrth 2009.

Cafwyd galwad i wneud arddangos sgôr hylendid bwyd yn orfodol yng Nghymru eisoes gan Lais Defnyddwyr Cymru yn ei ail adroddiad blynyddol, **Diogelu defnyddwyr rhag E. coli 0157**, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2011. Mae'r adroddiad yn nodi:

> Mae Cymru mewn sefyllfa gref i fod y wlad gyntaf yn y DU i'w gwneud yn orfodol

---

[32] Llafur Cymru, Maniffesto Llafur Cymru *2011 Sefyll Cornel Cymru*, t. 36 [fel ar 19 Gorffennaf 2011]
[33] APADGOS (Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau y Llywodraeth ar y pryd). Yr Adran Addysg a Sgiliau (AAS) yw'r enw erbyn hyn.
[34] Llywodraeth Cymru, Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg, Ebrill 2010, t. 22 [fel ar 13 Gorffennaf 2011]
[35] Cofnod y Trafodion, 12 Gorffennaf 2011 [fel ar 13 Gorffennaf 2011]

arddangos sgoriau hylendid. Mae pob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru wedi ymrwymo i gymryd rhan yn y cynllun, tra nad yw llawer yn Lloegr a'r Alban wedi gwneud ymrwymiad hyd yma. Rydym wedi cael cyngor cyfreithiol sy'n datgan, o ganlyniad i'r refferendwm ar 3 Mawrth, fod gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru y pŵer erbyn hyn i newid y gyfraith i'w gwneud yn orfodol arddangos y sgoriau.

**Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gyflwyno Deddf Cynulliad yn ei gwneud yn ofynnol i fusnesau bwyd arddangos sgoriau hylendid ar safleoedd busnes.**[36]

[36] Llais Defnyddwyr Cymru, Diogelu Defnyddwyr rhag E.coli O157: yr ail adroddiad blynyddol ar gynnydd, Mawrth 2011 [fel ar 13 Gorffennaf 2011]

## 3. Amgylchedd, Cynllunio a Chynaladwyedd

Wrth gyflwyno'r rhaglen ddeddfwriaethol, nododd y Prif Weinidog yr hyn a ganlyn:

> Sustainability lies at the heart of the Welsh Government's agenda for Wales and it lies too at the heart of this legislative programme. … This legislative programme provides new powers, duties and institutional capacity to advance our goals of building a sustainable Wales.[37]

Mae'r rhaglen ddeddfwriaethol yn cynnwys pum Bil sy'n ymwneud yn benodol â materion amgylcheddol, cynllunio a chynaliadwyedd. Mae manylion pob Bil i'w cael isod.

### *3.1 Bil Priffyrdd a Thrafnidiaeth (Cymru)*

Yn ôl y Prif Weinidog, bydd y *Bil Priffyrdd a Thrafnidiaeth (Cymru)* yn un byr a fydd yn deddfu i roi dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i ddarparu a chynnal a chadw llwybrau beicio mewn ardaloedd allweddol.[38] Ychwanegodd yr hyn a ganlyn:

> The Bill is intended to make walking and cycling a more practical and enjoyable option for people in Wales. Benefits from this will include the promotion of sustainable travel, and the resultant reduction in carbon emissions and improvement in air quality; the health benefits of a more active nation and economic benefits from recreation, tourism, and to the wider rural economy.[39]

Yn ogystal, nododd y Prif Weinidog y byddai'r Bil yn cael ei gyflwyno yn ystod y ddwy flynedd nesaf.[40]

Mae'r darpariaethau a fydd yn y Bil yn adlewyrchu'r ymrwymiad a ganlyn a wnaed ym maniffesto Llafur Cymru:

> O dan Lafur Cymru cafwyd buddsoddiad sylweddol mewn llwybrau beicio a chyfleoedd eraill i wella'r symudiad i ffwrdd o geir, ar gyfer hamdden ac iechyd a lles. Byddwn yn adeiladu ar hyn ac yn sefydlu anghenion y dyfodol trwy:
>
> - Ddeddfwriaethu i greu dyletswydd i ddarparu llwybrau beicio mewn ardaloedd allweddol.[41]

Mae Llywodraeth Cymru'n cefnogi nifer o fentrau a sefydliadau sy'n ymwneud â llwybrau beicio ar hyn o bryd. Mae'r rhain yn cynnwys **Llwybrau Diogel mewn Cymunedau**, a nifer o gynlluniau gwella cefnffyrdd a chynlluniau grantiau trafnidiaeth sy'n darparu seilwaith cerdded a beicio newydd.

Hefyd, lansiodd Llywodraeth flaenorol Cymru **Gynllun Gweithredu Cymru ar Gerdded a Beicio 2009-2013** ym mis Rhagfyr 2008 at y dibenion a ganlyn:

---

[37] Cofnod y Trafodion, 12 Gorffennaf 2011 [fel ar 13 Gorffennaf 2011]
[38] Ibid
[39] Ibid
[40] Ibid
[41] Llafur Cymru, *Maniffesto Llafur Cymru 2011 Sefyll Cornel Cymru*, t. 101 [fel ar 19 Gorffennaf 2011]

- [g]wella iechyd a lles y boblogaeth drwy gynyddu gweithgarwch corfforol;
- gwella'r amgylchedd lleol ar gyfer cerddwyr a beicwyr;
- annog teithio cynaliadwy fel cam ymarferol i frwydro yn erbyn y newid yn yr hinsawdd;
- cynyddu lefelau o gerdded a beicio drwy hyrwyddo cyfleusterau; a
- sicrhau bod cerdded a beicio yn derbyn blaenoriaeth mewn cyllid, cyfarwyddyd a pholisïau trawsbynciol.[42]

Roedd y mater o ddarparu llwybrau di-draffig hefyd yn sail i Orchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol a gynigiwyd gan Bwyllgor yn ystod y Trydydd Cynulliad, a gyflwynwyd yn gyntaf mewn deiseb gan **Sustrans Cymru**. Roedd y ddeiseb yn galw ar y Cynulliad Cenedlaethol i:

> …ofyn am bwerau i roi dyletswydd ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i ddatblygu, cynnal a chadw rhwydwaith o lwybrau di-draffig i'w rhannu gan gerddwyr, seiclwyr a phobl anabl ar hyd a lled Cymru….[43]

Fodd bynnag, methodd y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol ar ôl y refferendwm ar 3 Mawrth 2011, oherwydd ystyriwyd bod y pwerau sy'n berthnasol i ddatblygiad llwybrau di-draffig o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol, fel yr amlinellir yn yr 20 Maes yn Atodlen 7 i Ddeddf 2006.

## *3.2 Bil Cynllunio*

Wrth gyhoeddi'r *Bil Cynllunio*, dywedodd y Prif Weinidog wrth Aelodau na allant danbrisio pwysigrwydd cynllunio ar gyfer adnewyddu economaidd cynaliadwy.[44] Nododd y bydd y Bil, o ganlyniad, yn cynnwys darpariaethau i gyfuno deddfwriaeth gynllunio sy'n bodoli eisoes, er mwyn gwneud cynllunio yng Nghymru yn fwy tryloyw a hygyrch.[45] Yn ôl y Prif Weinidog, bydd hyn yn gyfle i ailystyried swyddogaethau a chyfrifoldebau er mwyn cael system gynllunio a allai hwyluso adnewyddiad economaidd.[46]

Cyhoeddodd y Prif Weinidog y bydd Papur Gwyn ar gynnwys y Bil yn cael ei gyflwyno tua diwedd 2012 i ganiatáu amser i'w drafod ac i ymgynghori arno cyn cyflwyno'r Bil yn ffurfiol yn 2014.

Bydd y cynigion hyn yn gweithredu'r ymrwymiad a gafwyd ym maniffesto Llafur Cymru i ganfod cyfleoedd i gyfuno'r gyfraith mewn meysydd y mae'n

---

[42] Cynllun Gweithredu Cymru ar Gerdded a Beicio 2009 – 2013, *Llywodraeth Cymru* [ar-lein], [fel ar 13 Gorffennaf 2011]
[43] P-03-077, *Sustrans: Galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i ddatblygu, cynnal a chadw rhwydwaith o lwybrau di-draffig a rennir*, 17 Hydref 2007 [fel ar 13 Gorffennaf 2011]
[44] Cofnod y Trafodion, 12 Gorffennaf 2011 [fel ar 13 Gorffennaf 2011]
[45] Ibid
[46] Ibid

amlwg bod angen eu harchwilio ers tro. Yn ôl y Prif Weinidog, mae cyfraith gynllunio yn esiampl amlwg o hynny.[47]

Lluniodd **[Pwyllgor Cynaliadwyedd]** y Trydydd Cynulliad adroddiad ar y system polisi cynllunio yng Nghymru gan awgrymu y dylid datblygu Deddf Gynllunio ar wahân i Gymru. Nododd adroddiad y Pwyllgor yr hyn a ganlyn:

> Er bod cefnogaeth gyffredinol i'r system bresennol - system sy'n dilyn y cynllun, credwn yn awr fod angen Deddf Cynllunio Newydd i Gymru. Byddai hon yn dal i ddarparu fframwaith ar gyfer system cynllunio sy'n seiliedig ar ddilyn y cynllun, ond byddai'n atgyfnerthu'r ddeddfwriaeth cynllunio bresennol ac yn cydnabod anghenion gwahanol Cymru.
> **Rydym yn argymell, [...] y dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno Deddf Cynulliad i atgyfnerthu deddfwriaeth cynllunio defnydd tir gan sicrhau ei bod yn diwallu anghenion gwahanol Cymru.**[48]

## *3.3 Bil Treftadaeth*

Diben y *Bil Treftadaeth*, a fydd yn cael ei gyflwyno yn ystod pedwaredd flwyddyn y rhaglen ddeddfwriaethol, yw symleiddio a moderneiddio'r rheolyddion amrywiol eang presennol sydd ar gael i helpu i warchod asedau hanesyddol yng Nghymru. O ganlyniad, diben y Bil yw'r hyn a ganlyn:

> [to be] more fitting to modern day issues, which reduces bureaucracy and is specifically geared to the needs of Wales. There is scope to encourage a more positive, engaged approach with owners and specific interest groups, while at the same time addressing issues associated with neglectful owners who might leave aspects of our heritage to deteriorate and decay.[49]

Yn ogystal, bydd y Bil yn darparu system glir a syml sy'n gwarchod treftadaeth Cymru ac sy'n hawdd i berchnogion ei deall.[50]

Nododd y Prif Weinidog hefyd ei ddymuniad i gael trafodaeth lawn ag amrywiaeth eang o bobl sydd â diddordeb yn y Bil cyn ei gyflwyno er mwyn mireinio'r syniadau cychwynnol, ac er mwyn canfod rhai newydd o bosibl.[51]

Mae'r ymrwymiad cyfatebol ym maniffesto Llafur Cymru yn nodi dymuniad i "[g]yflwyno Mesur Cadwraeth Treftadaeth i gryfhau ac amddiffyn adeiladau rhestredig yng Nghymru".[52]

Cafwyd cynigion tebyg yn y ***Bil Diogelu Treftadaeth drafft***, a gyflwynwyd gan Lywodraeth Lafur y DU ar 2 Ebrill 2008. Roedd hyn ar ôl cyhoeddi'r Papur Gwyn, **Heritage Protection for the 21st Century**, a gyhoeddwyd ar y cyd gan Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon y DU a Llywodraeth Cymru ar 8 Mawrth 2007.

[47] Cofnod y Trafodion, 14 Mehefin 2011 [fel ar 12 Gorffennaf 2011]
[48] Y Pwyllgor Cynaliadwyedd: *Ymchwiliad i Bolisïau Cynllunio yng Nghymru*, Ionawr 2011, t. 51 [fel ar 17 Gorffennaf 2011]
[49] Cofnod y Trafodion, 12 Gorffennaf 2011 [fel ar 13 Gorffennaf 2011]
[50] Ibid
[51] Ibid
[52] Llafur Cymru, *Maniffesto Llafur Cymru 2011 Sefyll Cornel Cymru*, t. 108 [fel ar 19 Gorffennaf 2011]

Ar y pryd, cafwyd gwybodaeth am y Bil drafft a'i effaith ar Gymru gan **Cadw, sef**:

> Nod y Mesur drafft yw sefydlu system diogelu treftadaeth unedig sy'n haws ei deall na'r systemau gwahanol presennol o restru adeiladau, cofrestru henebion, dynodi drylliadau a chofrestru parciau, gerddi a thirweddau hanesyddol. Y nod hefyd yw sicrhau ei bod yn fwy effeithlon, atebol a thryloyw, ac yn rhoi cyfle gwell i gynnwys y cyhoedd. Er iddynt gael eu llunio ar y cyd â Lloegr, mae'r darpariaethau yn caniatáu ar gyfer amgylchiadau ac arferion gwahanol yng Nghymru.[53]

Roedd disgwyl i'r Bil gael ei gyflwyno'n ffurfiol gan Lywodraeth y DU yn ystod 2008 a 2009 ond ni chafwyd amser i'w drafod yn y Senedd. Nid oedd cyfeiriad at y Bil yng **Nghytundeb y Glymblaid** rhwng y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol nac yn Araith y Frenhines ar 25 Mai 2010.

## *3.4 Bil Datblygu Cynaliadwy*

Cyhoeddodd y Prif Weinidog y byddai'r Bil hwn yn cael ei gyflwyno yn ystod y Pedwerydd Cynulliad, ond ni wnaeth nodi dyddiad cyflwyno penodol ac ni ddywedodd a fyddai Bil drafft neu Bapur Gwyn yn cael ei gyflwyno cyn cyflwyno'r Bil yn ffurfiol.

Diben y Bil yw amlygu Cymru fel cenedl gynaliadwy[54] drwy wneud yr hyn a ganlyn:

- "embed sustainable development as the central organising principle in all … actions across Government and all public bodies;[55]
- provide for the establishment of an independent body to continue the legacy of the [UK] Sustainable Development Commission in a way that best reflects Welsh interests and needs".[56]

Mae'r amcanion hyn yn adlewyrchu'r ymrwymiadau a ganlyn a wnaed ym maniffesto Llafur Cymru:

> Bydd Llafur Cymru yn:
> - Deddfwriaethu i sefydlu datblygu cynaliadwy fel yr egwyddor trefnu canolog yn ein holl weithredoedd ar draws y llywodraeth a phob corff cyhoeddus.
> - Deddfwriaethu i sefydlu corff datblygu cynaliadwy annibynnol newydd ar gyfer Cymru, yn dilyn penderfyniad Llywodraeth y DU o dan arweiniad y Torïaid i ddileu'r Comisiwn Datblygu Cynaliadwy.[57]

Diddymwyd **Comisiwn Datblygu Cynaliadwy'r DU** ar 31 Mawrth 2011 ar ôl i Lywodraeth glymblaid y DU rhwng y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol dynnu'r cyllid yn ôl.[58]

[53] Cyhoeddi'r Bil Drafft, Cadw [ar-lein] [fel ar 14 Gorffennaf 2011]
[54] Cofnod y Trafodion, 12 Gorffennaf 2011 [fel ar 13 Gorffennaf 2011]
[55] Ibid
[56] Ibid
[57] Llafur Cymru, *Maniffesto Llafur Cymru 2011 Sefyll Cornel Cymru*, t. 96 [fel ar 19 Gorffennaf 2011]
[58] Gweler Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, *Defra announces changes to arm's length bodies*, 22 Gorffennaf 2010 [fel ar 13 Gorffennaf 2011]

Ar 22 Gorffennaf 2010, mynegodd Jane Davidson AC, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai ar y pryd, siom ynghylch y datganiad ar ddyfodol y Comisiwn.[59] Mewn datganiad dilynol ar 1 Mawrth 2011, nododd y Gweinidog:

> Rydym ni yng Nghymru wedi gwerthfawrogi gwaith y Comisiwn bob amser, ac mae wedi gwneud cyfraniad pwysig i'n hagenda datblygu cynaliadwy.[60]

## *3.5 Bil Amgylchedd*

Diben y Bil hwn, sydd i'w gyflwyno ar adeg heb ei bennu yn ystod y Pedwerydd Cynulliad, yw atgyfnerthu amcan eang Llywodraeth Cymru i sicrhau bod gan Gymru ecosystemau sy'n gynyddol gadarn ac amrywiol sy'n darparu manteision economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol.[61] Ni wnaeth y Prif Weinidog nodi a fyddai Bil drafft neu Bapur Gwyn yn cael ei gyhoeddi cyn cyflwyno'r Bil yn ffurfiol.

Nododd y Prif Weinidog y bydd y Bil yn:

- gwella'r modd y mae'r amgylchedd yn cael ei ddiogelu ac yn darparu manteision ecolegol wrth leddfu'r baich rheoleiddio;[62] ac
- yn pennu maint y tir i'w ddefnyddio ar gyfer rhandiroedd gan sicrhau bod safon ofynnol ledled Cymru.[63]

Yn ogystal, nododd y Prif Weinidog y byddai cynnwys y Bil yn datblygu gwaith datblygu parhaus *Cymru Fyw* yn ystod y 12 i 18 mis nesaf.[64]

Mae'r ymagwedd hon yn cadarnhau'r ymrwymiadau a wnaed ym maniffesto Llafur Cymru sy'n addo "ailasesu'r egwyddorion sy'n tanategu Cymru Fyw" ac "ystyried yr amgylchedd fel cyfanrwydd a gweithredu i sicrhau dull mwy integredig o reoli'r amgylchedd naturiol sy'n gwella iechyd ecosystemau yn gyffredinol".[65]

Lansiwyd **Cymru Fyw - Fframwaith newydd ar gyfer ein hamgylchedd, ein cefn gwlad a'n moroedd** ym mis Medi 2010 gan Lywodraeth flaenorol Cymru. Cafwyd **ymgynghoriad** ar y fframwaith newydd rhwng 15 Medi 2010 a 31 Rhagfyr 2010. Cafwyd trosolwg o ddulliau gweithredu Llywodraeth Cymru ar y pryd yn y **ddogfen ymgynghori** **a oedd yn cydfynd â'r fframwaith, sy'n nodi**:

---

[59] Llywodraeth Cymru, *Datganiadau Ysgifenedig: Cynllun Datblygu Cynaliadwy*, 22 Gorffennaf 2010 [fel ar 13 Gorffennaf 2011]
[60] Llywodraeth Cymru, *Datganiad Ysgrifenedig: Y Comisiynydd Datblygu Cynaliadwy*, 1 Mawrth 2011 [fel ar 13 Gorffennaf 2011]
[61] Cofnod y Trafodion, 12 Gorffennaf 2011 [fel ar 13 Gorffennaf 2011]
[62] Ibid
[63] Ibid
[64] Ibid
[65] Llafur Cymru, *Maniffesto Llafur Cymru 2011 Sefyll Cornel Cymru*, t. 98 [fel ar 19 Gorffennaf 2011]

Rydym wrthi'n paratoi Fframwaith Amgylchedd Naturiol (FfAN). Bydd hwn yn canolbwyntio o'r newydd ar reoli'r tir a'r môr yn gynaliadwy yng Nghymru ac yn gweithredu o safbwynt ecosystemau.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn amlinellu'r egwyddorion y byddwn yn eu defnyddio i ddatblygu'r dull newydd hwn gyda'n gilydd, ac mae'n gofyn am fewnbwn i helpu i gynllunio sut i weithredu'r dull newydd.[66]

Yn ei ddatganiad mwyaf diweddar ar ddatblygu'r Fframwaith Amgylchedd Naturiol, nododd John Griffiths AC, Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy, mai'r prif newidiadau a ddaw o ganlyniad i'r Fframwaith yw:

- Ffocws ar werth yr amgylchedd yn ei gyfanrwydd, gan sicrhau canlyniadau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd cadarnhaol;
- Cyfleoedd i fwy o aelodau'r cyhoedd gymryd rhan ym materion yn ymwneud â'r amgylchedd;
- Dull gweithredu cadarnhaol i dirfeddianwyr, ffermwyr, pysgodfeydd, busnesau coedwigaeth, datblygwyr a diwydiannau a reoleiddir allu adlewyrchu'r nod cyffredin, sef datblygu cynaliadwy, gan sicrhau newidiadau amgylcheddol cadarnhaol yn hytrach na dim ond cadw'r hyn sydd gennym;
- Newidiadau i'n dull o gyflenwi polisïau, gwneud penderfyniadau a rheoli'r amgylchedd, er mwyn sicrhau bod ein cymunedau a'n bröydd yn cael elwa ar y safonau uchaf posibl o ran iechyd a lles;
- Sicrhau bod gan y cyrff cyhoeddus, sy'n gyfrifol am ddiogelu a gwella'r amgylchedd, yr hyn y mae ei angen arnynt i weithredu'r dull newydd.[67]

Mae gwaith y Fframwaith Amgylchedd Naturiol yn cynnwys ystyried strwythur a ffurf y cyrff sy'n darparu ar gyfer yr amgylchedd yng Nghymru. Y cyrff hyn yw **Cyngor Cefn Gwlad Cymru**, **Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru** a **Chomisiwn Coedwigaeth Cymru**.

## Darparu rhandiroedd

Roedd ymrwymiad i ddeddfu ym maes darparu rhandiroedd ym maniffesto Llafur Cymru, sef:

Mae Llafur Cymru yn cydnabod mai un ffordd effeithiol i gymunedau lleol ddod yn fwy cynaliadwy ac iachach yw trwy ddarparu rhandiroedd lleol. Ond eto mewn sawl rhan o Gymru, nid yw'r galw am randiroedd yn cael ei fodloni. Bydd Llafur Cymru felly yn:

- Deddfwriaethu ar faint o dir fydd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer rhandiroedd.[68]

Roedd y mater o ddarparu rhandiroedd hefyd yn destun ymchwiliad gan y **Pwyllgor Cynaliadwyedd** yn ystod y Trydydd Cynulliad. Roedd yr argymhellion a ganlyn yn **adroddiad** y pwyllgor a gyhoeddwyd ar 15 Gorffennaf 2010:

[66] Llywodraeth Cymru, *Dogfen ymgynghori: Cymru Fyw – fframwaith newydd ar gyfer ein hamgylchedd, ein cefn gwlad a'n moroedd*, 15 Medi 2011 [fel ar 13 Gorffennaf 2011]
[67] Llywodraeth Cymru, *Datganiad Ysgrifenedig: Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol 'Cymru Fyw'*, 15 Mehefin 2011 [fel ar 17 Gorffennaf 2011]
[68] Llafur Cymru, *Maniffesto Llafur Cymru 2011 Sefyll Cornel Cymru*, t. 101 [fel ar 19 Gorffennaf 2011]

> **Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymell sefydlu safon ar gyfer rhestri aros am randiroedd drwy'r Awdurdodau Lleol i gyd, er mwyn sicrhau bod yr wybodaeth a gofnodir yn y maes hwn yn gyson.
> **Argymhelliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad trwyadl o'r ddeddfwriaeth bresennol, er mwyn sefydlu beth sy'n berthnasol a beth y mae angen ei ddiweddaru.
> **Argymhelliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn argymell, ar ôl adolygu'r ddeddfwriaeth, y dylai Llywodraeth Cymru geisio'r cymhwysedd deddfwriaethol angenrheidiol i gyflwyno deddfwriaeth newydd ar gyfer rhandiroedd, a honno'n cynnwys terfyn amser i Awdurdodau Lleol ystyried ceisiadau ysgrifenedig am safleoedd newydd. [69]

Yn ei hymateb, cytunodd Llywodraeth Cymru i dderbyn y tri argymhelliad uchod, gan nodi:

> Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cytuno â'r egwyddor o geisio rhoi pwerau ychwanegol i Weinidogion Cymru a/neu ddiwygio'r Deddfau Rhandiroedd o ran yr hyn sy'n gymwys i Gymru.[70]

---

[69] Y Pwyllgor Cynaliadwyedd, *Darparu Rhandiroedd yng Nghymru*, 15 Gorffennaf 2010, t. 26 [fel ar 13 Gorffennaf 2011]
[70] Llywodraeth Cymru, *Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Cynaliadwyedd ar Ddarparu Rhandiroedd yng Nghymru*, Hydref 2010 [fel ar 13 Gorffennaf 2011]

## 4. Iechyd a Gwasanaethau Iechyd

### *4.1 Bil Rhoi Organau (Cymru)*

Cyhoeddodd y Prif Weinidog y byddai Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi Papur Gwyn ar y *Bil Rhoi Organau (Cymru)* cyn diwedd 2011, ond ni roddodd ddyddiad ffurfiol ar gyfer cyflwyno'r Bil ei hun.

Yn ôl y Prif Weinidog, bydd y Bil yn darparu system 'dewis peidio â rhoi organau', wedi ei chefnogi gan raglen gyfathrebu gynhwysfawr.[71]

Cafodd ymrwymiad i gyflwyno Bil o'r fath yn ystod y Pedwerydd Cynulliad ei gynnwys ym maniffesto Llafur Cymru:

> Byddwn yn cyflwyno Mesur Cynulliad er mwyn symud i system 'dewis peidio rhoi', wedi ei chefnogi gan raglen gyfathrebu gynhwysfawr. Y brif fantais fyddai cynyddu nifer y rhoddwyr organau yng Nghymru a'r canlyniad fyddai bod nifer o fywydau'n cael eu hachub a bod ansawdd bywydau llawer mwy yn gwella.[72]

Roedd caniatâd tybiedig ar gyfer rhoi organau yn achos cryn drafod yn ystod y Trydydd Cynulliad. Cynhaliodd **y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol** y Trydydd Cynulliad **ymchwiliad i ganiatâd tybiedig i roi organau** yn 2008 a chyhoeddodd **adroddiad** o'i gasgliadau a'i argymhellion ym mis Gorffennaf 2008. Gwnaeth y Pwyllgor yr argymhellion a ganlyn ynghylch caniatâd tybiedig yn benodol:

> **Argymhelliad 12:** Rydym[73] yn argymhell na ddylai'r Cynulliad, ar hyn o bryd, geisio Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol er mwyn cyflwyno system o ganiatâd tybiedig yng Nghymru.[74]

> **Argymhelliad 6:** Rydym yn argymhell y dylid defnyddio system "feddal", lle yr ymgynghorir ag anwyliaid ac ystyrir eu barn, mewn unrhyw ystyriaeth fanwl o ddeddfwriaeth i gyflwyno caniatâd tybiedig yng Nghymru neu yn y DU.[75]

Mewn ateb ysgrifenedig i argymhelliad y Pwyllgor, dywedodd Edwina Hart AC, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd:

> Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ystyried nad yw adroddiad y Pwyllgor yn adlewyrchu'n ddigonol y dystiolaeth a dderbyniodd o ran cryfder y farn a fynegwyd mewn perthynas â chaniatâd tybiedig ac yn ogystal nid yw'r adroddiad yn cydnabod rhai o'r camau a gyhoeddwyd eisoes gan Lywodraeth Cynulliad Cymru mewn perthynas â rhoi a thrawsblannu organau[76].

---

[71] **Cofnod y Trafodion, 12 Gorffennaf 2011 [Gwelwyd ar 13 Gorffennaf 2011]**
[72] **Plaid Lafur Cymru,*Maniffesto Llafur Cymru 2011 Sefyll Cornel Cymru*, t.55 [fel ar 19 Gorffennaf]**
[73] Dyma farn y mwyafrif ar y Pwyllgor a gefnogwyd gan Jonathan Morgan AC, Lorraine Barrett AC, Irene James AC, Ann Jones AC, Val Lloyd AC a Nick Ramsay AC. Gellir gweld barn y lleiafrif a gefnogwyd gan Helen Mary Jones AC, Dai Lloyd AC a Jenny Randerson AC yn rhan 10.4 o adroddiad y Pwyllgor.
[73] **Y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol, *Ymchwiliad i Ganiatâd Tybiedig i roi Organau*, Gorffennaf 2008, Rhan 10.3 [fel ar 14 Gorffennaf 2011]**
[73] Ibid, Rhan 6.17

[76] **Llywodraeth Cymru *Ymateb ysgrifenedig gan Edwina Hart, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i Ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol i Ganiatâd Tybiedig i Roi Organau*, Medi 2008 [fel ar 14 Gorffennaf ].**

Rhwng Hydref 2008 ac Ionawr 2009, lansiodd y Gweinidog ddadl gyhoeddus i gasglu barn ynghylch ai Cymru ddylai fod y wlad gyntaf yn y Deyrnas Unedig i gyflwyno system o ddewis peidio â rhoi organnau. Yna, ym mis Mai 2009, lansiodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad cyhoeddus ar y mater, o dan yr enw, **Opsiynau ar gyfer Newidiadau i'r System o Roi Organau yng Nghymru,** a chyhoeddodd **adroddiad ymgynghori** wedi'i seilio ar gyflwyniadau a ddaeth i law ym mis Medi 2009. Nododd yr adroddiad fod y rhan fwyaf o'r ymatebion yn cefnogi newid i'r system ganiatâd ar gyfer rhoi organau yng Nghymru drwy gael system feddal o ddewis peidio â rhoi organnau.[77]

Ar 18 Rhagfyr 2009, gwnaeth y Gweinidog **ddatganiad ysgrifenedig ar Y System Rhoi Organau yng Nghymru.** Mewn datganiad dilynol ar **Raglen Ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru 2010-2011,** cadarnhaodd y Prif Weinidog ei fwriad i wneud cais am y pwerau deddfu angenrheidiol ynghylch rhoi organau drwy Orchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol.

Cafodd ***Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Iechyd a Gwasanaethau Iechyd) 2011 (Yn ymwneud â Rhoi Organau)*** ("y Gorchymyn arfaethedig"), a oedd â'r diben o drosglwyddo pwerau deddfu ynghylch rhoi organau o San Steffan i'r Cynulliad Cenedlaethol, ei gyflwyno gan Lywodraeth Cymru ar 10 Ionawr 2011. Nodwyd yr hyn a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol a oedd yn cyd-fynd â'r Gorchymyn arfaethedig:

> Gofynnir am gymhwysedd deddfwriaethol i ddarparu ar gyfer newidiadau i'r system o gydsynio i roi organau a meinweoedd cyrff marw at ddibenion trawsblannu.[78]

Pan gyflwynwyd y Gorchymyn arfaethedig, mynegodd Twrnai Cyffredinol Llywodraeth y DU bryderon ynghylch a fyddai defnydd y Cynulliad o bwerau o'r fath yn codi cwestiynau o ran hawliau dynol, maes na ddatganolwyd.[79] Dywedodd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd yr hyn a ganlyn wrth Aelodau yn y Cyfarfod Llawn ar 13 Ionawr 2011:

> Members will wish to be aware that we have not yet received confirmation from the Attorney General that the proposed Order is within the scope of Schedule 5 to the Government of Wales Act 2006. I apologise to opposition spokespeople that I have just been informed that we were sent an e-mail by the Wales Office at 2.16 p.m. today, which contained details of the UK Government's concerns.[80]

---

[77] **Llywodraeth Cymru, *Opsiynau ar gyfer newid y system rhoi organau yng Nghymru: Adroddiad ymgynghori,* Medi 2009 [fel ar 14 Gorffennaf 2011]. (Saesneg yn unig)**
[78] **Llywodraeth Cymru, *Memorandwm oddi wrth y Gweinidog Dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru(Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Iechyd a Gwasanaethau Iechyd) 2011,* Ionawr 2011 [fel ar14 Gorffennaf 2011].**
[79] **BBC News, *Wales' opt-out organ donor bid 'may not be legal'*, 11 Ionawr 2011 [fel ar 14 July 2011].**
[80] **Cofnod y Trafodion, 13 Ionawr 2011 [fel ar 14 Gorffennaf 2011]**

Yn ddiweddarach, wrth gael ei holi mewn sesiwn dystiolaeth i Bwyllgor Deddfwriaethol Rhif 1 ar 20 Ionawr 2010, rhannodd y Gweinidog yr wybodaeth ddiweddaraf am y trafodaethau a gynhaliwyd rhwng Llywodraethau Cymru a'r DU mewn perthynas â'r Gorchymyn arfaethedig, a chadarnhaodd y byddai pwerau ynghylch rhoi organau o fewn cwmpas y setliad datganoli presennol:

> **Andrew Davies:** You mentioned, Minister, that you had had discussions with the Secretary of State for Health, Andrew Lansley. Presumably, the Wales Office would have been informed of those, although, clearly, the Secretary of State has problems with memory loss at the moment. What was the response of the Department of Health at the time? Did it raise any issues regarding the powers of the Assembly, for example, that, in the Attorney-General's judgment, this exceeded what is possible in Schedule 5 to the Government of Wales Act 2006?
>
> **Edwina Hart:** When I indicated that I had spoken to Andrew Lansley, it was when he was down here on another visit. I made a passing reference to the proposed legislative competence Order, but I did not have a detailed discussion with him, because this is a devolved matter and we are perfectly lawful in how we intend to go ahead with it. I am not aware that the Department of Health raised any concerns whatsoever when the sign-off occurred within the UK Government.
>
> **Mr Davies:** That is right, and during the process of discussing the LCO proposal with the Department of Health and the Wales Office, no concerns were raised directly about whether or not it was possible to have a matter inserted into Schedule 5 about consent to organ donation. That concern emerged quite late, not that long before the proposed LCO was published.
>
> **Andrew Davies:** Minister, the legal advice that you have had from the legal services department is clear: you have the powers.
>
> **Edwina Hart:** Yes, I have the powers through this procedure and I will have the powers if there is a successful 'yes' vote in the referendum.[81]

Cafodd y Gorchymyn arfaethedig ei ystyried gan Bwyllgor Deddfwriaethol Rhif 1, a gyhoeddodd **adroddiad** ar 4 Chwefror 2011 a oedd yn argymhell y "dylai'r Cynulliad Cenedlaethol gael cymhwysedd deddfwriaethol yn y meysydd a nodir yn y Gorchymyn arfaethedig".[82] Galwodd yr adroddiad hefyd ar y Gweinidog i ddatblygu "rhaglen addysg gyhoeddus fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r ddeddfwriaeth a fydd yn deillio o'r Gorchymyn arfaethedig hwn."[83]

---

[81] Cofnod y Trafodion, 13 Ionawr 2011 [fel ar 14 Gorffennaf 2011]
[82] Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, *Adroddiad ar Orchymyn Arfaethedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Iechyd a Gwasanaethau Iechyd) 2011*, Chwefror 2011, t.5 [fel ar 14 Gorffennaf 2011]
[83] Ibid

Ar ôl cael pleidlais gadarnhaol yn y refferendwm ar bwerau pellach i'r Cynulliad Cenedlaethol ar 3 Mawrth 2011, tynnodd Llywodraeth Cymru y Gorchymyn arfaethedig yn ôl.

## *4.2 Bil Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru)*

Dywedodd y Prif Weinidog y byddai'r Bil hwn yn darparu fframwaith cyfreithiol cydlynol i Gymru ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol am y tro cyntaf.[84] Yn benodol, bydd y Bil yn gosod y fframwaith cyfreithiol a'r isadeiledd i drawsnewid gwasanaethau i fynd i'r afael â'r newidiadau mewn disgwyliadau cymdeithasol a demograffeg.[85]

Mae hyn yn adlewyrchu'r ymrwymiad a ganlyn ym maniffesto Llafur Cymru:

> Gan ddefnyddio ein pwerau deddfwriaethol newydd, byddwn yn cyflwyno Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol i symleiddio'r cymysgedd o ddeddfwriaeth sydd ar hyn o bryd yn rheoleiddio gofal cymdeithasol yng Nghymru er mwyn gwneud mynediad i wasanaethau lawer yn haws ac yn fwy dealladwy i'r rheiny sydd eu hangen. Bydd hyn yn seiliedig ar adolygiad trylwyr o'r fframwaith deddfwriaethol a rheoliadol presennol ar gyfer gwasanaethau gwaith cymdeithasol a gofal cymdeithasol.
> Deddfwriaethu ar gyfer meini prawf cymhwysedd cenedlaethol ar gyfer mynediad i holl wasanaethau gofal cymdeithasol.[86]

Cafodd yr Aelodau wybod gan y Prif Weinidog y byddai'r Bil yn datblygu'r ymrwymiadau a wnaed yn **Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu, a** gyhoeddwyd ar 17 Chwefror 2011 gan Gwenda Thomas AC, y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd.

Mae'r ddogfen gryno sy'n cyd-fynd â hi yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu "canolbwyntio ar nifer bychan o faterion y gellir gweithredu arnynt ar lefel uchel er mwyn 'newid y gêm'[87] i yrru'r newidiadau strategol sydd eu hangen. Y rhain yw:

- Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cymryd mwy o gyfrifoldeb am lywio cyfeiriad y gwasanaethau. Gwnawn hynny drwy wneud trefniadau mwy cydlynol a fydd yn canolbwyntio mwy ar wella. Byddwn hefyd yn sicrhau bod trefniadau cadarn yn eu lle i fod yn atebol am ddarparu gwasanaethau o fewn fframwaith newydd a fydd yn sicrhau canlyniadau cadarn yn genedlaethol.

- Byddwn yn gwneud yn siŵr nad yw popeth yn cael ei wneud 22 o weithiau a'n bod yn defnyddio'r capasiti sydd gennym yn fwy effeithlon ac effeithiol.

- Byddwn yn gwneud yn siŵr bod gan ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr lais cryfach o lawer a mwy o reolaeth dros y gwasanaethau maent yn eu defnyddio.

- Byddwn yn sicrhau bod gweithlu mwy hyderus yn cael ei greu a bod y gweithwyr yn cael eu cefnogi i weithredu yn unol â'u barn broffesiynol eu hunain. Cânt eu

[84] Cofnod y Trafodion, 12 Gorffennaf 2011 [fel ar 13 Gorffennaf 2011]
[85] Ibid
[86] Plaid Lafur Cymru, *Maniffesto Llafur Cymru 2011 Sefyll Cornel Cymru*, t.59 [fel ar 19 Gorffennaf 2011]
[87] Llywodraeth Cymru *Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu: Crynodeb*, Chwefror 2011 [fel ar 14 Gorffennaf 2011]

hannog hefyd i ddefnyddio tystiolaeth yn deillio o'r hyn sy'n gweithio iddyn nhw fel gweithwyr proffesiynol yn hytrach na dibynnu gormod ar ganllawiau llywodraeth.

- Byddwn yn rhoi blaenoriaeth i wasanaethau integredig, yn arbennig teuluoedd ag anghenion cymhleth, plant sy'n derbyn gofal, plant yn tyfu'n oedolion a phobl hŷn fregus eu hiechyd – gan wneud y defnydd mwyaf posibl o fanteision ein dull unigryw o greu gwasanaethau integredig yn seiliedig ar y teulu yma yng Nghymru.

- Trwy sicrhau bod gwasanaethau cymdeithasol yn cael lle canolog yng ngwaith llywodraeth leol byddwn yn eu sbarduno i fod yn gryfach. Byddwn hefyd yn manteisio ar ddyletswyddau ehangach llywodraeth leol o safbwynt arweiniad cymunedol a'r amrywiaeth eang o wasanaethau sydd ar gael i ddarparu gwasanaethau ataliol.

- Byddwn yn nodi'n gliriach mai darparwyr a chomisiynwyr gwasanaethau sy'n atebol am ansawdd a diogelwch ac am sicrhau gwelliannau mewn modd mwy cydlynol. Bydd hyn, yn ei dro, yn arwain at leihau baich llunio canllawiau, rheoleiddio ac arolygu.[88]

Yn ôl y ddogfen hefyd, byddai Llywodraeth Cymru yn mynd ati "i fynnu'r pwerau statudol pellach"[89] i sicrhau bod camau o'r fath yn cael eu cymryd.

Ym mis Mai 2011, cyhoeddodd **Comisiwn y Gyfraith dros Gymru a Lloegr adroddiad** ar adolygiad o ddeddfwriaeth gofal cymdeithasol i oedolion. Argymhellodd yr adroddiad y dylid symleiddio'r 'clytwaith' o ddeddfwriaeth sydd ar gael eisoes mewn statudau ar wahân ar gyfer Cymru a Lloegr.

Argymhellodd y Comisiwn y dylid cael statudau ar wahân ar gyfer gofal cymdeithasol yng Nghymru a Lloegr ac, yn sgil y pwerau newydd a gyflwynwyd o dan Ran 4 o Ddeddf 2006, y dylid gweithredu'r rhain drwy Ddeddf Cynulliad Cymru.[90].

Argymhellodd y Comisiwn hefyd y dylai statud gofal cymdeithasol newydd sefydlu diben cyffredin ar gyfer gofal cymdeithasol i oedolion o hybu lles yr unigolyn neu gyfrannu ato.  Dylai fod gan awdurdodau lleol ddyletswydd gyffredinol i ateb anghenion y gymuned leol ehangach a dyletswydd i roi mwy o gymorth wedi'i dargedu, drwy'r broses asesu, i'r rhai hynny sydd ag anghenion penodol.

Caiff Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r Bil hefyd fel cyfle i gyflwyno argymhellion a wnaed yn **Adroddiad Dilnot** ar ariannu tecach ar gyfer gofal yn Lloegr ym mis Gorffennaf 2011 mewn deddfwriaeth yng Nghymru.

Ar 4 Gorffennaf 2011, croesawodd y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol adroddiad Dilnot, gan ddweud y gallai Bil Llywodraeth Cymru

---

[88] Ibid
[89] Ibid
[90] Ibid, Argymhelliad 1, paragraff 3.10

roi cyfle i ddeddfu yng Nghymru ar unrhyw elfennau perthnasol sy'n codi o adroddiad Dilnot, pe bai Llywodraeth Cymru yn dewis gwneud hynny.[91]

Dywedodd y Prif Weinidog y byddai Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar gynnwys y Bil o'r gaeaf ymlaen gyda'r bwriad o'i gyflwyno ym mis Hydref 2012.[92]

## *4.3 Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru)*

Cyhoeddodd y Prif Weinidog gynlluniau i ymgynghori ar *Fil Iechyd y Cyhoedd (Cymru)* rhywbryd yn 2012, ond ni ddywedodd a fyddai'r ymgynghoriad ar ffurf Papur Gwyn neu Fil drafft. Ni chafwyd dyddiad cyflwyno swyddogol ar gyfer y Bil.

Wrth baratoi i gyflwyno'r Bil, dywedodd y Prif Weinidog wrth Aelodau y byddai Llywodraeth Cymru yn ystyried ymhellach y sail ddeddfwriaethol i sicrhau disgwyliad oes a lles gwell ynghyd â lleihau anghydraddoldeb iechyd yng Nghymru. [93]

Mae hyn yn adlewyrchu ymrwymiadau a wnaed yn nogfen Llywodraeth Cymru ***Canlyniadau iechyd tecach i bawb - Cynllun Gweithredu Strategol Ein Dyfodol Iach,*** ac ym maniffesto Llafur Cymru.

Cyhoeddwyd *Canlyniadau iechyd tecach i bawb – Cynllun Gweithredu Strategol ein Dyfodol Iach* gan Lywodraeth y Cynulliad ym mis Mawrth 2011. Diben y ddogfen oedd nodi sut y gellid sicrhau mwy o gydraddoldeb ym maes iechyd yng Nghymru. Mae prif feysydd gweithredu'r strategaeth yn cynnwys:

- ymgorffori iechyd ym mhob polisi ac ymgorffori pob polisi ym maes iechyd;
- rhoi dechrau iach i bob plentyn;
- datblygu asedau iechyd mewn cymunedau;
- gwella llythrennedd iechyd;
- gwneud iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn decach;
- datblygu Cymru weithgar ac iach; a
- cryfhau'r sail dystiolaeth.[94]

Roedd Maniffesto Llafur Cymru hefyd yn cynnwys nifer o ymrwymiadau yn ymwneud ag iechyd y cyhoedd a lleihau anghydraddoldebau iechyd. Mae'r rhain yn cynnwys y rhai a ganlyn:

- Sefydlu ymgyrch iechyd blynyddol i fynd i'r afael â'r pum blaenoriaeth pennaf ym maes iechyd y cyhoedd - alcohol, gordewdra, smygu, beichiogrwydd yn yr arddegau a cham-drin cyffuriau.

---

[91] Llywodraeth Cymru, *Datganiad Ysgrifenedig: Cymru'n croesawu adroddiad Dilnot*, 4 Gorffennaf 2011 [fel ar 19 Gorffennaf 2011]
[92] **Cofnod y Trafodion, 12 Gorffennaf 2011 [fel ar 13 July 2011]**
[93] **Cofnod y Trafodion, 12 Gorffennaf 2011 [fel ar 13 July 2011]**
[94] **Canlyniadau iechyd tecach i bawb, *Llywodraeth Cymru* [ar-lein] [fel ar 14 Gorffennaf 2011]**

- Adeiladu ar ein rhaglen o fesurau i annog pobl ifanc i beidio â dechrau smygu, cefnogi smygwyr sydd eisiau rhoi'r gorau iddi, a lobio llywodraeth y DU ar faterion heb eu datganoli fel lleihau delweddau tybaco i bobl ifanc.

- Ymgynghori ar ddeddfwriaeth i wahardd smygu ar dir ysbytai lle gall lefel y mwg fod yn uchel ac mewn mannau lle mae cleifion, ymwelwyr a staff yn ymgasglu, yn cynnwys ardaloedd dynodedig penodol ar dir ysbytai.

- Gofyn i BILl dargedu anghydraddoldebau iechyd yn eu hardaloedd eu hunain, yn cynnwys ymgyrch wedi ei thargedu ar gyfer cymunedau mwyaf difreintiedig y poblogaethau maent yn eu gwasanaethu.

- Gofyn bod camau yn cael eu cymryd i ymdrin â'r amrywiad mwyaf trwy raglen leol glir, wedi ei chefnogi gan strategaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles. [95]

Cyhoeddodd y Prif Weinidog hefyd ar 14 Gorffennaf 2011, ddeuddydd ar ôl ei ddatganiad deddfwriaethol i'r Cyfarfod Llawn, y byddai opsiynau deddfwriaethol i wahardd ysmygu mewn ceir sy'n cludo plant yng Nghymru yn cael eu hystyried. Dywedodd:

> Wales was the first UK country to vote in favour of a ban on smoking in public places and if necessary we will not shy away from considering the introduction of progressive legislation to further protect children from second-hand smoke …
>
> Our manifesto committed us to take tough action to tackle inequalities in health, particularly the harm caused by tobacco use and its effect on children.
>
> The law already requires any vehicle that is used by more than one person in the course of paid or voluntary work to be smoke free and an extension is the next logical step.
>
> We will mount a renewed campaign to tackle smoking alongside other interventions such as quit programmes, but will consider pursuing legislative options if children's exposure to second-hand smoke does not start to fall within the next three years.[96]

Mae cam o'r fath wedi cael ei gymryd bron ym mhob rhan o Awstralia a Chanada ac mewn pum talaith yn yr Unol Daleithiau, ond erioed yn Ewrop.[97]

Serch hynny, mae'n anneglur ar hyn o bryd a fyddai angen cynnwys argymhellion o'r fath yn y Bil hwn neu mewn Bil ychwanegol, neu a ellid cyflwyno darpariaethau o'r fath drwy bwerau presennol Gweinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth.

---

[95] Plaid Lafur Cymru, *Maniffesto Llafur Cymru 2011 Sefyll Cornel Cymru*, t 53 [fel ar 19 Gorffennaf 2011]
[96] Wales could be first in Europe to ban smoking in cars carrying children, Wales Online [ar-lein], 14 Gorffennaf 2011 [fel ar 14 Gorffennaf 2011]
[97] Gweler Peter Hetherington, Welsh Assembly takes a new direction on public services, The Guardian [ar-lein], 20 Gorffennaf 2011 [fel ar 20 July 2011]

## 5. Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

### *5.1 Bil Strwythurau, Llywodraethu ac Anghenion Addysgol Arbennig (Cymru)*

Hwn fydd yr ail Fil Addysg i'w gyflwyno yn ystod tymor y Cynulliad (yn dilyn *Bil Ysgolion a Safonau (Cymru)* a gyflwynir ar ddechrau 2012). Yn ystod ei ddatganiad i'r Cyfarfod Llawn, cyhoeddodd y Prif Weinidog y bydd y Bil yn cael ei gyflwyno yn ystod ail flwyddyn y rhaglen ddeddfwriaethol (sesiwn 2012 – 2013). Fodd bynnag, ni wnaeth y Prif Weinidog ddatgan a fyddai Bil drafft neu Bapur Gwyn yn cael eu cyhoeddi cyn cyflwyno'r Bil yn ffurfiol.

Bydd y Bil yn cwmpasu pedwar amcan cyffredinol ar draws y sbectrwm addysgol. Bydd yn:

- cynnwys darpariaethau mewn sawl maes addysgu, gan gynnwys rheoli perfformiad, a datblygiad proffesiynol parhaus;
- gwneud y newidiadau i'r gyfraith sy'n angenrheidiol i ddiwygio'r sector addysg uwch yng Nghymru;
- gwneud newidiadau i drefniadau llywodraethu sefydliadau addysg bellach; a
- diwygio'r system bresennol ar gyfer datganiadau i blant a phobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig.[98]

Bydd y newidiadau deddfwriaethol hyn yn adlewyrchu'r ymrwymiadau a wnaed gan Llafur Cymru yn ei maniffesto a bydd yn gweithredu rhaglenni a wnaed gan Lywodraeth flaenorol Cymru mewn cysylltiad â llywodraethu ysgolion a chydweithio rhwng sefydliadau addysgol.

Mae maniffesto Llafur Cymru yn cynnwys ymrwymiad i "Gynhyrchu Canllawiau Statudol" sy'n nodi'r arfer gorau sydd ar gael ar hyn o bryd yng Nghymru a thu hwnt. Yn ôl y maniffesto:

> Bydd hyn yn cynnwys strategaethau addysgu nod barcud. Byddwn yn canolbwyntio ar lythrennedd, rhifedd a mynd i'r afael ag anfantais. Byddwn yn disgwyl ffocws cryf ar arferion addysgu dibynadwyedd uchel er mwyn sicrhau bod gennym y gweithlu addysg mwyaf medrus sydd yn datblygu gallu yn barhaus.[99]

Mewn perthynas ag addysg uwch, mae'r maniffesto yn cynnwys nod i "ddatblygu sector addysg uwch cynyddol lwyddiannus" drwy ddeddfu i "...gyflwyno cydlyniaeth ac effeithlonrwydd i AU trwy sefydlu un corff cynllunio strategol ac ariannu". [100]

---

[98] Cofnod y Trafodion, 12 Gorffennaf 2011 [fel ar 13 Gorffennaf 2011]
[99] Plaid Lafur Cymru, *Maniffesto Llafur Cymru 2011 Sefyll Cornel Cymru*, t 34 [fel ar 19 Gorffennaf 2011]
[100] Ibid, t 38

Mae'r maniffesto hefyd yn nodi bwriad Llafur Cymru i ddefnyddio pwerau deddfwriaethol y Cynulliad "i sicrhau erbyn 2013 nad oes unrhyw brifysgol yng Nghymru yn gweithredu ar drosiant sydd yn llai na 75 y cant o gyfartaledd y DU".[101]

Mae'r maniffesto hefyd yn cynnwys ymrwymiad o ran llywodraethu ysgolion. Yn benodol mae'n ymrwymo Llywodraeth Llafur Cymru i roi:

> gofyniad statudol ar lywodraethwyr i gael hyfforddiant i'w galluogi i wneud eu gwaith yn effeithiol a byddwn yn sicrhau cyflwyno system effeithiol ar gyfer clercio.[102]

Yn ogystal, mae'r maniffesto yn gwneud ymrwymiad i ddiwygio trefniadau llywodraethu addysg bellach yng Nghymru "ar drywydd di-elw neu fentrau cymdeithasol, er mwyn rhoi llais i ystod ehangach o randdeiliaid ynglŷn â'r ffordd y caiff colegau eu rhedeg".[103]

## *5. 2 Bil Plant a Phobl Ifanc (Cymru)*

Caiff y Bil hwn ei gyflwyno yn ystod ail hanner y rhaglen ddeddfwriaethol. Serch hynny, ni wnaeth y Prif Weinidog nodi a fyddai ymgynghoriad, ar ffurf Papur Gwyn neu Fil drafft, yn cael ei gynnal cyn cyflwyno'r Bil yn ffurfiol.

Yn ei ddatganiad i'r Cyfarfod Llawn, cyhoeddodd y Prif Weinidog yr hyn a ganlyn:

> [The Bill] will build on the Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure 2011, which was introduced during the last Assembly, and which will expand the role of the Children's Commissioner for Wales.[104]

Wrth ymateb i gwestiynau yn ystod dadl ar flaenoriaethau deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar 14 Mehefin 2011, nododd y Prif Weinidog mai diben y Bil fyddai'r hyn a ganlyn:

> … build on the Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure 2011, particularly using powers that we have now but did not have then; that is the important point. In particular, we will see how we can further embed the UN convention into Welsh law.[105]

Gallai'r Bil hwn gyflawni'r nifer o gynigion deddfwriaethol mewn perthynas â phlant sydd i'w gweld ym maniffesto Llafur Cymru. Nododd y maniffesto y byddai Llywodraeth Llafur Cymru yn cyflwyno "Deddf Plant Cymru" i:

- Gyflwyno gwasanaeth cenedlaethol plant sy'n derbyn gofal er mwyn sicrhau bod dewis addas o ran lleoliad ar gael ar gyfer pobl ifanc sy'n gorfod byw oddi cartref. Bydd y gwasanaeth yn gweithredu safonau cyffredin y byddwn yn eu sefydlu mewn

[101] Plaid Lafur Cymru, *Maniffesto Llafur Cymru 2011 Sefyll Cornel Cymru*, t 38 [fel ar 19 Gorffennaf 2011]
[102] Ibid, tudalen 36
[103] Ibid, tudalen 37
[104] Cofnod y Trafodion, 12 Gorffennaf 2011 [fel ar 13 Gorffennaf 2011]
[105] Cofnod y Trafodion, 14 Mehefin 2011 [fel ar 12 Gorffennaf 2011]

deddfwriaeth. Caiff y gwasanaeth ei oruchwylio gan Uned Safonau a Chydymffurfio, wedi ei sefydlu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

- Yn amodol ar ganlyniad adolygiad Llywodraeth y DU o Gyfiawnder Teuluol, cadw'r egwyddor o gynrychiolaeth ar wahân ar gyfer plant mewn trafodion teuluol perthnasol yng Nghymru.

- Ymgynghori ar sefydlu un asiantaeth fabwysiadu genedlaethol ar gyfer Cymru.

- Adolygu'r gyfraith yn ymwneud ag amddiffyn plant a gosod safonau cenedlaethol i'w cyflawni gan bob awdurdod lleol. Byddwn yn adolygu strwythur cyfredol Byrddau Lleol Diogelu Plant gyda'r bwriad o leihau nifer y fath Fyrddau sy'n gweithredu yng Nghymru yn sylweddol.

- Ystyried integreiddio prosesau adrodd ac amddiffyn oedolion gyda'r rheiny ar gyfer plant a phobl ifanc.[106]

Cafodd *Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011*[107] ei basio gan y Cynulliad Cenedlaethol ar 18 Ionawr 2011. Ei nod yw:

> .. gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru a'r Prif Weinidog i roi sylw dyledus i'r hawliau a'r rhwymedigaethau yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (y Confensiwn) a'i Brotocolau Dewisol, wrth wneud penderfyniadau strategol am sut i arfer swyddogaethau sy'n arferadwy ganddynt.[108]

Cafodd egwyddorion cyffredinol y Mesur ar ei ffurf arfaethedig eu hystyried yn y Cynulliad Cenedlaethol gan **Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5,** a gyhoeddodd ei **adroddiad** Cyfnod 1 ar 22 Hydref 2010.

Ni wnaeth y Prif Weinidog roi manylion am sut byddai'r Bil yn ymestyn rôl **Comisiynydd Plant Cymru**. Serch hynny, awgrymwyd ffordd y gellid ymestyn cylch gwaith Comisiynydd Plant Cymru mewn erthygl yn Adolygiad Sefydliad Bevan gan Emyr Lewis, partner ym Morgan Cole ac arbenigwr mewn cyfraith gyhoeddus a gweinyddol, sy'n nodi:

> … there is no exception (in Schedule 7 to the 2006 Act) for immigration. So it would be quite legitimate for the National Assembly to legislate on a matter which related, for instance, to child welfare, which impinged on the immigration system, such as extending the remit of the Children's Commissioner for Wales to cover the cases of children of asylum seekers.[109]

---

[106] **Plaid Lafur Cymru, *Maniffesto Llafur Cymru 2011 Sefyll Cornel Cymru*, t 38 [fel ar 19 Gorffennaf 2011]**
[107] **Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 (Mesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2)** (Saesneg yn unig)
[108] **Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, *Cynulliad Cenedlaethol Cymru* [Ar-lein] [fel ar 14 Gorffennaf 2011]**
[109] Emyr Lewis, *Bevan Foundation Review: The power of law*, Gwanwyn 2011, t 8 – 9

## 6. Cymunedau, Tai a Pholisi Cymdeithasol

### *6.1 Bil Atal Troseddau Ieuenctid (Cymru)*

Roedd datganiad y Prif Weinidog yn cyhoeddi bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu ymgynghori ynghylch *Bil Atal Troseddau Ieuenctid (Cymru),* a fyddai'n gwella'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu i blant a phobl ifanc sy'n dod yn rhan o'r system cyfiawnder ieuenctid, neu'n gadael y system, drwy wneud yr hyn a ganlyn:

> … making clear the vulnerabilities of those within the system and establishing duties on local partnerships to address them. Conferring equivalent entitlements on those entering juvenile custodial detention to those currently looked after.[110]

Nododd maniffesto Llafur Cymru y dylid gwneud yr hyn a ganlyn:

> Cynnal Timau Troseddau Ieuenctid ond gweithredu gyda llawer mwy o gyfeiriad strategol ar draws Cymru, gan ddeddfwriaethu lle y bo'n briodol, er mwyn cael cydweithredu agosach rhwng asiantaethau ar bob lefel.[111]

Ym mis Chwefror 2010, cyhoeddodd y **Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant** ei adroddiad ***Cyfiawnder Ieuenctid: Profiad plant Cymru mewn Sefydliadau Diogel***. Dyma'r themau allweddol a oedd yn deillio o'r ymchwiliad:

- datganoli Sefydliadau Diogel i Gymru;
- atal pobl ifanc rhag troseddu;
- ymateb i bobl ifanc yn troseddu;
- y ddarpariaeth bresennol o leoliadau mewn sefydliadau diogel yng Nghymru;
- problemau penodol mewn sefydliadau diogel;
- cymorth ychwanegol i grwpiau penodol o blant a phobl ifanc mewn sefydliadau diogel;
- hyfforddiant Staff;
- adsefydlu ac ôl-ofal.[112]

Wrth roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y pwyllgor, datganodd Huw Lewis AC, y Dirprwy Weinidog dros Blant ar y pryd:

> Children and young people getting involved in the youth justice system constitutes a real issue for many families, and that is a legitimate and necessary part of the work on how we develop Families First, how we support those families and, most importantly, how we prevent that kind of entanglement with the youth justice system in the first

---

[110] Cofnod y Trafodion, 12 Gorffennaf 2011 [fel ar 13 Gorffennaf 2011]
[111] Plaid Lafur Cymru, *Maniffesto Llafur Cymru 2011 Sefyll Cornel Cymru*, t.62 [fel ar 19 Gorffennaf 2011]
[112] Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, *Adroddiad Etifeddiaeth y Trydydd Cynulliad*, Mawrth 2011. t.20 [fel ar 19 Gorffennaf 2011]

place. There are also wider implications for community-based programmes such as Communities First.

So, a live conversation is going on in the Welsh Government at the moment about how all those arms of support are brought together in a much more rigorous and holistic way, so that young people and families that are hitting these issues are assisted out of the situation, or steered away from it all together, preferably.[113]

## *6.2 Bil Tai (Cymru)*

Roedd datganiad y Prif Weinidog yn cyhoeddi y byddai *Bil Tai (Cymru)* yn cael ei gyflwyno er mwyn gweithredu'r ymrwymiadau a wnaed yn y maniffesto, gan gynnwys mynd i'r afael â digartrefedd, gwella safon tai a gwella hawliau tenantiaid yn y sector rhentu preifat.

Nododd y byddai'r Bil yn datblygu'r tair blaenoriaeth strategol a nodwyd yn **Strategaeth Tai Cenedlaethol** Llywodraeth flaenorol Cymru, a lansiwyd ym mis Ebrill 2010, sef:

- cynyddu'r cyflenwad tai;
- gwella ansawdd y cyflenwad; a
- gwella gwasanaethau sy'n gysylltiedig â thai – yn enwedig ar gyfer pobl sy'n agored i niwed neu bobl ddigartref.

Wrth annerch cynhadledd Shelter Cymru ym mis Mehefin 2011, nododd Huw Lewis AC, y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth, ei flaenoriaethau o ran tai. Dywedodd:

> Rydym am ddatrys y problemau â'r cyflenwad trwy gynyddu nifer y tai fforddiadwy. Bydd hynny'n ein helpu i fynd i'r afael â digartrefedd. Rydym wedi bod yn siarad am ddefnyddio'r system gynllunio'n well a thros y tymor nesaf, byddaf yn gweithio gyda Gweinidogion i ofalu bod y system gynllunio'n ateb y gofyn trwy ystyried yr angen am fwy o dai fforddiadwy.
>
> Rwyf wrthi'n gweithio gyda swyddogion i edrych ar y protocol ar gyfer rhyddhau tir i weld a oes safleoedd segur gan y GIG yng Nghymru, y Comisiwn Coedwigaeth, y Weinyddiaeth Amddiffyn a'r Eglwys yng Nghymru y gallwn ei ddefnyddio ar gyfer tai fforddiadwy os mai hynny yw blaenoriaeth yr awdurdod lleol.
>
> Rwy'n awyddus hefyd i edrych ar fodelau gwahanol o berchnogaeth tai.
>
> Rwyf wedi ymrwymo i dreialu cynllun tai cydweithredol neu gydfuddiannol sy'n buddsoddi'n wahanol mewn tai gan gadw'r tir am byth er lles y gymuned leol.[114]

## *6.3 Bil Cam-drin Domestig (Cymru)*

Cyhoeddodd y Prif Weinidog y bwriad i gyflwyno, yn ystod y ddwy flynedd nesaf, *Bil Cam-drin Domestig (Cymru)* a fydd yn gosod dyletswydd ar gyrff perthnasol yn y sector cyhoeddus i sefydlu 'strategaeth i atal trais yn erbyn menywod'. Roedd y datganiad yn pwysleisio na fyddai'r Bil yn ceisio mynd i'r afael â materion sy'n gysylltiedig â chyfiawnder troseddol. Yn hytrach, diben

---

[113] **Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 10 Mawrth 2011. paragraffau 25-26 [fel ar 19 Gorffennaf 2011]**

[114] **Llywodraeth Cymru, Gweinidog yn nodi blaenoriaethau tai yng Nghynadledd Shelter Cymru, 30 Mehefin 2011 [fel ar 19 Gorffennaf 2011]**

y darpariaethau fydd ymdrin â lles cymdeithasol a'r elfennau atal, diogelu a chymorth sy'n gysylltiedig â strategaeth i atal cam-drin domestig a thrais yn erbyn menywod.

Nododd maniffesto'r blaid Lafur y byddai Llywodraeth Cymru yn:

> Rhoi dyletswydd ar gyrff perthnasol y sector cyhoeddus i sefydlu strategaeth cam-drin domestig a thrais yn erbyn menywod.[115]

Cafodd strategaeth Llywodraeth Cymru i atal cam-drin domestig, *Delio â Cham-drin Domestig; Y Dull Partneriaeth*, ei lansio yn 2005. Daeth strategaeth newydd yn ei lle yn 2010, ***Yr Hawl i fod yn Ddiogel***, gyda'r nod o sicrhau bod camau effeithiol yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r agenda trais yn erbyn menywod yn ei gyfanrwydd.

Mae *Yr Hawl i fod yn Ddiogel* yn nodi pedair blaenoriaeth allweddol:

- atal a chodi ymwybyddiaeth o drais yn erbyn menywod a cham-drin domestig;
- rhoi cymorth i ddioddefwyr a phlant;
- gwella ymateb asiantaethau cyfiawnder troseddol; a
- gwella ymateb y gwasanaethau iechyd ac asiantaethau eraill.

Mewn papur briffio a gyflwynwyd i Aelodau'r Cynulliad cyn y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar 12 Gorffennaf 2011, amlinellodd Cymorth i Fenywod y problemau o ran y ffordd mae awdurdodau lleol yn delio â cham-drin domestig y teimlai oedd yn bodoli. Dywedodd:

> We have been heartened by the commitment to tackling violence against women in Wales, notably from the Minister for Communities and Local Government, but also across all parties in the Assembly. However, national policy has not always translated into local delivery. We need local authorities to understand that tackling violence against women is a national priority -- enforced by legislation if needs be.
>
> A particular problem we have faced since the introduction of the Gender Equality Duty in 2007 is a misinterpretation of equalities legislation by local authorities. Local authorities do not understand the notion of ''substantive equality'' and our member groups have experienced threats to their funding and accusations of ''discriminating against men'' because they provide specialist, single-sex services. This is despite clear guidance from the Equality and Human Rights Commission and judicial reviews in this area in England. The problem has continued into 2011 with the introduction of the Equality Act (2011) and Public Sector Equality Duties for Wales.
>
> This problem needs to be mitigated to ensure that women and children receive specialist support, and that frontline staff are able to do their jobs without funding threats from local authorities. Unfortunately, in our experience, voluntary guidance for local authorities is not enough. We hope that the Welsh Government will use its new

---

[115] Plaid Lafur Cymru, *Maniffesto Llafur Cymru 2011 Sefyll Cornel Cymru*, t.73 [fel ar 19 Gorffennaf 2011]

legislative powers to address this worrying development, and to encourage local authorities to take further action to address violence against women on a local level.[116]

## 6.4 Bil Tyllu Cosmetig (Oedran Cydsynio) (Cymru)

Roedd datganiad y Prif Weinidog yn nodi bod tyllu cosmetig wedi dod yn fwy poblogaidd dros y blynyddoedd diweddar. Mae dros chwarter o'r bobl sy'n cael triniaeth tyllu cosmetig (ac eithrio i labed y glust) yn dioddef cymlethdodau. Cred Llywodraeth Cymru y byddai cydsyniad gwybodus rhieni yn sicrhau bod rhieni yn ymwybodol bod eu plentyn yn dymuno cael triniaeth tyllu cosmetig, a'u bod yn ymwybodol o'r goblygiadau posib. Bwriedir ymgynghori ar gyflwyno'r *Bil Tyllu Cosmetig (Oedran Cydsynio) (Cymru)* yn fuan.

Nododd Maniffesto Llafur y byddai Llywodraeth Cymru yn:

> Ymgynghori ynghylch a ddylid cyflwyno deddfwriaeth lle byddai'n ofyniad cynnwys a chael caniatâd rhieni ar gyfer gweithdrefnau tyllu cosmetig ar berson ifanc o dan oed penodol.[117]

Mae *Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982*[118] (fel y'i diwygiwyd gan ddarpariaethau adran 120 ac Atodlen 6 i *Ddeddf Llywodraeth Leol 2003*[119]) yn awdurdodi awdurdodau lleol i'w gwneud yn ofynnol bod busnesau sy'n cynnig gwasanaethau aciwbigo, tatŵio, tyllu cosmetig (tyllau yn unrhyw ran o'r corff, gan gynnwys y clustiau) ac electrolysis, neu sy'n rhoi lliw lled-barhaol ar y croen, yn cofrestru'r busnes a'r lleoliad gyda'r awdurdod lleol. Gall awdurdod lleol hefyd wneud is-ddeddfau at ddibenion sicrhau glendid a hylendid lleoliadau o'r fath, yr ymarferwyr sy'n gweithio yno a'r offer a ddefnyddir.

Mae *Deddf rhoi Tatŵ i Blentyn Dan Oed 1969*[120] yn ei gwneud yn drosedd rhoi tatŵ parhaol i unrhyw un o dan 18 mlwydd oed. Nid oes cyfyngiad statudol o'r fath ar gyfer tyllu cosmetig. Er nad oes yn rhaid gosod cyfyngiad oedran mewn is-ddeddf, mae rhai awdurdodau lleol wedi gwneud hynny, ac mae'r diwydiant tyllu cosmetig yn cefnogi hynny.[121] Yn 2004, nododd Adran Iechyd y DU:

> There are no current plans to introduce legislation to make the cosmetic piercing of minors a criminal offence. Introducing a minimum age of consent might result in children piercing themselves or each other in an unsafe and unhygienic way or going to disreputable businesses.[122]

---

[116] Cymorth i Fenywod, *The Right to be Safe: One Year On*, Papur Briffio ar gyfer Aelodau'r Cynulliad, 12 Gorffennaf 2011

[117] **Plaid Lafur Cymru, *Maniffesto Llafur Cymru 2011 Sefyll Cornel Cymru*, t.53 [fel ar 19 Gorffennaf 2011]**

[118] **Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 (p.30) (Saesneg yn unig)**

[119] **Deddf Llywodraeth Leol 2003 (p.26) (Saesneg yn unig)**

[120] **Deddf rhoi Tatŵ i Blentyn Dan Oed 1969 (p.24) (Saesneg yn unig)**

[121] **Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, Rheoleiddio Busnesau Tatŵio a Thyllu Corff, Nodyn Safonol SN/SC/5079, Mai 2010 [fel ar 19 Gorffennaf 2011]. (Saesneg yn unig.)**

[122] **Yr Adran Iechyd, Deddf Llywodraeth Leol 2003; Rheoleiddio Busnesau Tyllu Cosmetig a Lliwio Croen, Chwefror 2004 [fel ar 19 Gorffennaf 2011]. (Saesneg yn unig.)**

Mae deddfwriaeth ynghylch rheoleiddio'r oedran y gall pobl gael triniaeth tyllu cosmetig wedi bod yn ei lle yn yr Alban ers 2006. Mae sut y caiff y ddeddfwriaeth honno ei gweithredu yn cael ei adolygu ar hyn o bryd.

Ym mis Chwefror 2009, cafodd **deiseb** ei chyflwyno i Bwyllgor Deisebau y Cynulliad yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i gyfyngu ar yr oedran y gall plentyn dan oed gael triniaeth tyllu cosmetig ar unrhyw ran o'r corff, ac y dylid rheoleiddio'r oedran y gellir cael triniaeth tyllu cosmetig ar unrhyw ran o'r corff, ac eithrio'r clustiau a'r trwyn, hyd at 16 mlwydd oed. Ysgrifennodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol at y pwyllgor yn nodi bod grŵp gorchwyl a gorffen wedi'i sefydlu, a gafodd gyfarfod i drafod tyllu corff ym mis Chwefror 2010. Nododd y Gweinidog y byddai hi'n ystyried a ddylid gofyn am gymhwysedd deddfwriaethol er mwyn cyflwyno deddfwriaeth ar ôl i'r grŵp adrodd yn ôl. Ar ôl y refferendwm ym mis Mawrth 2011, mae'r Cynulliad bellach yn gymwys i ddeddfu yn y maes hwn.

Ym mis Gorffennaf 2011, ysgrifennodd Lesley Griffiths AC, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol newydd, at William Powell AC, Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau. Cyhoeddodd ei bwriad i gyflwyno papur ymgynghori ar y pwnc "yn fuan."[123]

## *6.5 Bil Compactau Statudol y Trydydd Sector (Cymru)*

Cyhoeddodd y Prif Weinidog hefyd y byddai Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ynghylch deddfwriaeth a fyddai'n gwneud trefniadau compactau Trydydd Sector rhwng awdurdodau lleol a sefydliadau cyfryngol y trydydd sector, sef y Cynghorau Gwirfoddol Sirol, yn ofyniad statudol. Ar hyn o bryd, mae compactau'n cael eu sefydlu'n wirfoddol, er bod y rhan fwyaf o awdurdodau wedi croesawu'r ethos o sefydlu cysylltiadau ffurfiol â'r trydydd sector. Fodd bynnag, mae cwmpas a chynnwys y compactau'n amrywio yn ôl yr ardal, ac o ran ymgysylltiad ac effeithiolrwydd. Os bydd y dystiolaeth a'r ymgynghoriad yn awgrymu bod angen gosod compactau ar sail statudol, bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno *Bil Compactau Statudol y Trydydd Sector (Cymru)* tuag at ddiwedd y Cynulliad hwn.

Mae compact yn brotocol, neu'n god ymarfer, sy'n nodi'r egwyddorion y bydd asiantaethau statudol (awdurdodau lleol, y gwasanaeth iechyd a'r

---

[123] **Llythyr oddi wrth y Gweindiog Iechyd a Gwasnaethau Cymdeithasol, Lesley Griffiths AC at William Powell AC, Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau, 5 Gorffennaf 2011 [fel ar 19 Gorffennaf 2011]** **(Saesneg yn unig.)**

heddlu) a'u partneriaid gwirfoddol a chymunedol (megis cyngor gwirfoddol sirol, canolfan cyngor ar bopeth, trafnidiaeth gymunedol a chanolfan gwirfoddol) yn eu dilyn wrth ddelio â'i gilydd. Diben compact yw egluro, datblygu a sefydlu cysylltiadau da rhwng y sectorau cyhoeddus a gwirfoddol mewn ardal ddaearyddol benodol. Mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yn nodi:

> Mae y rhan fwyaf o gynghorau eisoes wedi sefydlu Partneriaeth Strategol Leol sy'n cynrychioli'r holl bartneriaid statudol a gwirfoddol yn y ddwy ardal. Mae y rhan fwyaf o'r Partneriaethau hyn yn ymuno â chompact eu hardal leol, sy'n delio gyda chyllid, ymgynghori, datblygu polisi, a meysydd ymarfer da eraill. Mae'n cynnwys ymrwymiadau i'r partneriaid cyhoeddus ac i'r partneriaid gwirfoddol a chymunedol. Er mai dogfen sirol ydyw fel rheol, mae'r partneriaid fel arfer yn datblygu cynllun gweithredu compact lleol fel y gellir ei deilwrio i weithio orau i'w hardal leol.[124]

## *6.6 Bil Democratiaeth ac Etholiadau (Cymru)*

Cyhoeddodd y Prif Weinidog y byddai *Bil Democratiaeth ac Etholiadau (Cymru)* yn cael ei gyflwyno yn ystod ail flwyddyn y rhaglen ddeddfwriaethol. Bydd yn ail-lunio'r rheolau ar gyfer dull gweithredu'r Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru. Bydd y Bil yn diwygio strwythur a swyddogaethau'r **Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru** a'r broses o benodi ac ariannu Swyddogion Canlyniadau.

Nododd Maniffesto Llafur y byddai Llywodraeth Cymru yn:

> Cyhoeddi cyfarwyddiadau newydd i Gomisiwn Ffiniau Llywodraeth leol, gan roi cynrychiolaeth leol a budd cymunedol wrth wraidd unrhyw adolygiad o ffiniau yn y dyfodol.[125]

Ym mis Rhagfyr 2010, cyhoeddodd Carl Sargeant AC, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol ar y pryd, na fyddai yn gweithredu unrhyw un o'r **adolygiadau etholiadol** a argymhellwyd gan y Comisiwn cyn etholiadau lleol 2012, ond yn hytrach y byddai'n trefnu adolygiad annibynol o'i raglenni gwaith. Roedd hyn oherwydd bod oedi o ran cwblhau'r adolygiadau etholiadol a bod pryder ynghylch ansawdd yr adolygiadau a oedd wedi'u cwblhau. Nododd datganiad y Gweinidog:

> Yn unol â'r materion hyn, ac yn arbennig yn sgil yr oedi a fu wrth gynhyrchu adroddiadau ar gyfer amryw o siroedd, rwyf wedi penderfynu na fyddaf yn gwneud unrhyw orchmynion yng nghyd-destun diwygio ffiniau unrhyw awdurdod lleol yng Nghymru a fydd yn dod i rym erbyn etholiadau 2012. Nid wyf am greu sefyllfa lle bydd rhai awdurdodau lleol yn cynnal etholiadau yn 2012 o dan drefniadau newydd, a rhai eraill o dan drefniadau sydd eisoes yn bodoli. Byddai sefyllfa o'r fath yn anghytbwys. Rwy'n gwneud y cyhoeddiad hwn yn awr i roi sicrwydd i lywodraeth leol, a phawb arall sydd ynghlwm wrth y broses etholiadol.
>
> Yn amlwg, mae'r ffaith nad yw'r Comisiwn Ffiniau wedi llwyddo i gyflawni'r rhaglen hon o adolygiadau mewn modd cyson, ac o fewn yr amserlenni y cytunwyd arnynt, yn

---

[124] Compactau: Gweithio Gydag Eraill, *Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru* [ar-lein] [fel ar 17 Gorffennaf 2011]

[125] Plaid Lafur Cymru, *Maniffesto Llafur Cymru 2011 Sefyll Cornel Cymru*, t.28 [fel ar 19 Gorffennaf 2011]

achos pryder imi. O ganlyniad, rwyf wedi cyfarwyddo fy swyddogion i sefydlu adolygiad annibynnol i ymchwilio i'r rhesymau y tu ôl i'r methiannau hyn, ac i nodi camau y gellid eu cymryd i sicrhau bod modd cyflenwi'r rhaglen yn effeithlon, ac i safon uchel, mewn da bryd erbyn etholiadau 2016.[126]

Roedd yr adolygiad yn canolbwyntio ar bolisïau, amcanion gweithredol a gweithdrefnau'r Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru ac yn nodi'r camau i'w cymryd i sicrhau bod y rhaglen i adolygu'r trefniadau etholiadol yn cael ei chyflawni i safon uchel erbyn etholiadau 2016. Penodwyd Glyn Mathias i arwain yr adolygiad ym mis Mawrth 2011.[127]

Ar 22 Mehefin 2011, cyhoeddwyd adroddiad yr adolygiad a gwnaeth y Gweinidog **ddatganiad yn y Cyfarfod Llawn**. Dywedodd:

> I fully accept the findings of the report; it contains lessons for all of us who are concerned with the process of electoral reviews, including the Welsh Government. The most concerning finding, however, is the conclusion reached that the Local Government Boundary Commission for Wales has lost the confidence of its stakeholders and therefore it is not fit for purpose.
>
> This is a most serious conclusion and I have decided to terminate the appointments of the three existing commissioners. I believe that the taking of this decisive step and the early appointment of suitable replacements is necessary to recover the reputation of the commission in the eyes of the public, local government and other interested parties. I will be seeking to make temporary appointments to the posts until such time as a full and open appointment process can be organised.[128]

[126] Llywodraeth Cymru, *Datganiad Ysgrifenedig: Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru – Adolygiad Etholiadol*, 8 Rhagfyr 2010 [fel ar 19 Gorffennaf 2011]
[127] Llywodraeth Cymru, *Penodiad i Adolygu'r Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol*, 3 Mawrth 2011 [fel ar 19 Gorffennaf 2011]
[128] Cofnod y Trafodion, 22 Mehefin 2011 [fel ar 19 Gorffennaf 2011]

**A. Amserlen ar gyfer cyflwyno Biliau Cynulliad yn ystod y Pedwerydd Cynulliad**[129]

| **Teitl y Bil** | **Papur Gwyn / Bil Drafft / Dyddiad Ymgynghori** | **Dyddiad cyflwyno'r Bil** |
|---|---|---|
| Bil Swyddfa Archwilio Cymru | Medi 2011 | Heb ei nodi |
| Bil Llywodraeth Leol (Is-ddeddfau) (Cymru) | Heb ei nodi | Hydref 2011 |
| Bil Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd (Arddangos Gwybodaeth) (Cymru) | Rhagfyr 2011 | Mai 2012 |
| Bil Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) | Gaeaf 2011 | Hydref 2012 |
| Bil Rhoi Organau (Cymru) | 2011 | Heb ei nodi |
| Bil Ysgolion a Safonau (Cymru) | Heb ei nodi | Yn gynnar yn 2012 |
| Bil Llywodraeth Leol (Cydlafurio) (Cymru) | Heb ei nodi | Sesiwn 2011 – 2012 |
| Bil Iechyd Cyhoeddus (Cymru) | 2012 | Heb ei nodi |
| Bil Cynllunio (Cymru) | Diwedd 2012 | 2014 |
| Bil Strwythurau, Llywodraethu ac Anghenion Addysgol Arbennig (Cymru) | Heb ei nodi | Sesiwn 2012 – 2013 |
| Bil Cam-drin Domestig (Cymru) | Heb ei nodi | Sesiwn 2012 – 2013 |

[129] Mae'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn tabl atodedig yn seiliedig ar y wybodaeth a ddarparodd y Prif Weinidog yn ystod y drafodaeth ar raglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2011-2016 ar 12 Gorffennaf 2011. Gweler Cofnod y Trafodion, 12 Gorffennaf 2011 [fel ar 13 Gorffennaf 2011]

| | | |
|---|---|---|
| Bil Democratiaeth ac Etholiadau (Cymru) | Heb ei nodi | Sesiwn 2012 – 2013 |
| Bil Priffyrdd a Thrafnidiaeth (Cymru) | Heb ei nodi | "o fewn y ddwy flynedd nesaf"[130] (erbyn diwedd sesiwn 2012 – 2013) |
| Bil Atal Troseddau Ieuenctid (Cymru) | Heb ei nodi | "dros y ddwy flynedd nesaf"[131] (erbyn diwedd sesiwn 2012 – 2013) |
| Bil Plant a Phobl Ifanc (Cymru) | Heb ei nodi | "ail hanner y rhaglen ddeddfwriaethol"[132] (o sesiwn 2013 – 2014 ymlaen) |
| Bil Tai (Cymru) | "rhywbryd yn ystod 2013"[133] | Heb ei nodi |
| Bil Treftadaeth (Cymru) | Heb ei nodi | Sesiwn 2014 – 2015 |
| Bil Tyllu Cosmetig (Oedran Cydsynio) (Cymru) | Heb ei nodi (er bydd ymgynghoriad yn digwydd "yn fuan"[134]) | Heb ei nodi |
| Bil Compactau Statudol y Trydydd Sector (Cymru) | Heb ei nodi | "tuag at ddiwedd y Cynulliad hwn"[135] |
| Bil Datblygu Cynaliadwy (Cymru) | Heb ei nodi | Heb ei nodi |
| Bil yr Amgylchedd (Cymru) | Heb ei nodi | Heb ei nodi |

[130] Cofnod y Trafodion, 12 Gorffennaf 2011 [fel ar 13 Gorffennaf 2011]
[131] Ibid
[132] Ibid
[133] Ibid
[134] Ibid
[135] Ibid